# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 20 Ionawr 2021

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(09.30-10.45) (Tudalennau 1 - 50)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid - Llywodraeth Cymru

Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Bregus - Llywodraeth Cymru

Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd - Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

Papur 1 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitem 4

(10.45)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

(10.45-11.00)

**Egwyl (11.00-11.15)**

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(11.15-11.45) (Tudalennau 51 - 80)

Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth - Llywodraeth Cymru

Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon - Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

Papur 2 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.45)

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

(11.45-12.00)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Dyddiad: 20 Ionawr 2021**
**Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd**
**Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22**

## 1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 18 Tachwedd 2020 yn ei gwahodd i roi tystiolaeth ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ac yn gofyn iddi ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

## 2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynigion cyllideb y dyfodol ar gyfer 2021-22 yn y meysydd cyllideb sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl a Llesiant ym:

- Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r;
- MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## 3. Blaenoriaethu adnoddau

Roedd y gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr yn amlinellu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL).

Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2022-23 ar gael ar hyn o bryd gan mai dim ond blwyddyn y mae'r gyllideb ddrafft yn ei chwmpasu.

Mae'r tablau isod yn dangos symudiadau'r gyllideb o gyllideb Atodol gyntaf 2020-21 i Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Symudwyd cyllidebau Iechyd Meddwl a Llesiant o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg newydd ar ôl yr ail gyllideb atodol ym mis Hydref 2020.

Yn ychwanegol at y cyllidebau sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG wedi'i gynnwys fel dyraniadau wedi'u clustnodi i fyrddau iechyd lleol, wedi'u hariannu o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaed penderfyniadau ar ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau'r GIG ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ym mis Hydref 2020 fe wnaethom ryddhau fersiwn ddiwygiedig o *Gynllun Gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22* a oedd yn cynnwys camau gweithredu trawslywodraethol cryfach i ymateb i effaith y pandemig ar iechyd meddwl. Mae'r cynllun

ar ei newydd wedd yn nodi camau newydd arwyddocaol yn y meysydd hynny sy'n ffactorau amddiffynnol pwysig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae cefnogaeth a gwytnwch yn y meysydd hyn yn rhan hanfodol o ymateb system gyfan i leihau effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar lesiant a lleihau'r angen i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Ymysg pethau eraill, mae hyn yn cynnwys addysg (gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch), cyflogaeth, cynhwysiant ariannol a chymorth ar gyfer digartrefedd a bydd angen i'r buddsoddiad hwn mewn meysydd y tu allan i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau os ydym am atal a diogelu iechyd meddwl y genedl. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 buddsoddwyd cyllid ychwanegol yn y sector gwirfoddol ac mewn partneriaid allweddol eraill i ddarparu cymorth iechyd meddwl Haen 0, lefel isel ar draws y boblogaeth, a bydd angen i hynny barhau hefyd.

**Dyraniadau Iechyd Meddwl a Llesiant o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | | | |
|---|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU** | **Iechyd Meddwl a Llesiant** | | |
| **Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21** | **Newidiadau** | **2021-22** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Iechyd Meddwl | 26.860 | 9.40 | 36.260 |
| Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 28.725 | | 28.725 |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 3.737 | -0.127 | 3.610 |
| Ymchwil a Datblygu | 42.075 | | 42.075 |
| Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach | 8.514 | | 8.514 |
| **Cyfanswm** | **109.911** | **9.273** | **119.184** |

Mae'r newidiadau'n ymwneud â:

**BEL 0270 - Iechyd Meddwl**

- £4m o gymorth ychwanegol i gefnogi'r Dull Systemau Cyfan (Dull Ysgolion Cyfan yn flaenorol) i wella mynediad i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.
- £5.4m ar gyfer CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) - cyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl drwy wasanaethau cleifion mewnol cymunedol neu arbenigol.

**BEL 0380 - Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

- Gostyngiad o £0.127m yn y gyllideb yn ymwneud â chyllid unwaith ac am byth ar gyfer Pontio o'r UE ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd a ddaeth i ben yn 2020-21.

**Dyraniadau o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n berthnasol i Iechyd Meddwl a Llesiant**

- Cynnydd o £33 miliwn ar gyfer iechyd meddwl gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

***Esboniad o sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles yn cael eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a lle y gellir dod o hyd i'r gwariant a ddyrannwyd/a ragwelir ar gyfer y blaenoriaethau hyn (e.e. dadansoddiad o ddyraniad Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb), gan gynnwys;***

***- Gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys y Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl)***
***- Dementia***
***- Awtistiaeth***
***- Camddefnyddio Sylweddau (gan gynnwys y Gronfa ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau)***
***- Iechyd Cyn-filwyr***
***- Profiad y claf***
***- Gordewdra/ gweithredu 'Pwysau Iach, Iechyd Cymru'.***

**Iechyd Meddwl**

Byddwn yn sicrhau cynnydd o £42 miliwn yn y cyllid ar gyfer iechyd meddwl yn 2021-22 i gyfanswm o £783 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £33 miliwn yn ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fynd â chyfanswm y cyllid iechyd meddwl o fewn y MEG hwnnw i £746.8 miliwn, a £9.4 miliwn yn ychwanegol o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg gan fynd â chyfanswm y cyllid o fewn y MEG hwn i £36.3 miliwn.

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl craidd y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyhoeddir y cyllid hwn yn flynyddol i fyrddau iechyd lleol fel dyraniad wedi'i glustnodi. Mae'r dyraniad yn cynrychioli'r lefel ofynnol o gyllid y dylai byrddau fod yn ei wario ar ddiwallu anghenion iechyd meddwl eu poblogaeth. Mae'n cynnwys ystod

eang o wariant, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau ysbyty, gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol a gweithgaredd gofal sylfaenol a chyffuriau ar bresgripsiwn. Er bod y cyllid hwn wedi'i neilltuo, mae disgwyl i fyrddau iechyd lleol reoli risgiau a chyfleoedd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â'r cyllid hwn ochr yn ochr â'u dyraniadau yn ôl disgresiwn ar gyfer gwasanaethau eraill y GIG. Am y rheswm hwn, nid yw'n ymarferol dadgyfuno'r cyllid hwn o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG, ac mae'n parhau i fod o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o'r GIG ac rydym wedi cynyddu'r cyllid sy'n cael ei glustnodi i iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £726m yn 2021-22 (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae'r cynnydd yn y cyllid sydd wedi'i glustnodi yn 2021-22 yn cynnwys cyllid ychwanegol o £0.5m ar gyfer anhwylderau bwyta ac £1.277m i gefnogi gwasanaethau iechyd carchardai. Manylir ar y cynnydd yn y dyraniad sydd wedi'i glustnodi yn y tabl isod:

| | **Newidiadau yn nyraniad y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Iechyd Meddwl y GIG £m** |
|---|---|
| 2020-21 Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer BILl | 711.9 |
| Cyllid ar gyfer anhwylderau bwyta | 0.5 |
| Cyllid ar gyfer gofal iechyd carchardai | 1.3 |
| Cymorth gan gymheiriaid mewn gwasanaethau rhywedd | 0.1 |
| Cyllid ar gyfer twf mewn costau craidd 2021-22 | 13.0 |
| **Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer BILl 2021-22** | **726.8** |

Yn ychwanegol at y symiau uchod, mae £20 miliwn arall wedi'i neilltuo o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd elfen y GIG o'r cyllid hwn yn cael ei ychwanegu at ddyraniad a glustnodir y bwrdd iechyd lleol yn ystod 2021-22.

.
Yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mae buddsoddiad ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (£5.4m) a'r Dull Systemau Cyfan (£4m). Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid BEL presennol ar gyfer Iechyd Meddwl o £26.86m wedi'i rannu ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, 'Cymru Iachach' a chyllidebau Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl sydd i gyd yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth.

Llywiodd y meysydd blaenoriaeth hyn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020, ond a ailgyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 i ystyried yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth a'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl. Y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a nodir yn y cynllun cyflawni, yw:

- Cymorth iechyd meddwl a llesiant i adfer o Covid-19 - camau gweithredu sy'n ymateb i effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant ac i gynorthwyo gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl sy'n newid, gan gynnwys ehangu'n sylweddol y cymorth iechyd meddwl lefel isel Haen 0 ar draws y boblogaeth.
- Gwella iechyd meddwl a llesiant a lleihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol, drwy waith wedi'i dargedu ar atal afiechyd a chamau gweithredu traws-Lywodraethol ar benderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant.
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc - gwella mynediad a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau, ynghyd â chefnogi'r cwricwlwm newydd a'r dull ysgol gyfan, gan ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau'r GIG i ysgolion a llenwi bylchau mewn gwasanaethau yn y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd drwy Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth Argyfwng a'r Tu Allan i Oriau ar gyfer plant, oedolion oedran gweithio ac oedolion hŷn - gan symud tuag at gynnig amlasiantaeth cyffredin ledled Cymru
- Gwella mynediad at therapïau seicolegol i blant, oedolion o oedran gweithio ac oedolion hŷn, a gwella eu hansawdd a'u hystod - er mwyn sicrhau gostyngiad sylweddol mewn amseroedd aros erbyn diwedd y Llywodraeth hon, cynyddu'r ystod o therapïau a gynigir a chefnogi'r gweithlu i ddarparu'r ymyriadau hyn er mwyn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau;
- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a’r mynediad atynt - datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ymhellach gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd a llwybrau gofal a darparu darpariaeth cleifion mewnol.
- Gwella ansawdd a thrawsnewid gwasanaethau - gan gynnwys ymateb i adolygiadau thematig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru, gwella cymorth ar gyfer anhwylderau bwyta, ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a datblygu ymyrraeth gynnar ymhellach mewn gwasanaethau seicosis.

Yn sail i'r meysydd blaenoriaeth hyn a'r camau gweithredu cysylltiedig mae nifer o ffrydiau gwaith trosfwaol, a fydd yn parhau y tu hwnt i oes y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo mynediad teg a chefnogi'r Gymraeg;
- cryfhau cydgynhyrchu a chefnogi gofalwyr;
- datblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl;
- defnyddio ymchwil a data yn well wrth ddatblygu polisi iechyd meddwl;
- cefnogi gweithredu bwriadau polisi a chanlyniadau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019. Hefyd, datblygu sefyllfa strategol o ran pa newidiadau sydd eu

hangen i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn gwella canlyniadau.

Mae tystiolaeth gymhellol o'r angen cynyddol am gymorth iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig ac i barhau â'n rhaglen waith i wella iechyd meddwl, fel y nodir yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022, a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Yn ystod 2020-21 fe wnaethom fuddsoddi mewn gwell mynediad at gymorth lefel isel, i ymateb i'r lefelau uwch o bryder yn ein poblogaeth. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, rydym yn rhagweld cynnydd mewn angen ar draws pob lefel o wasanaethau iechyd meddwl, oherwydd effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig.

Rydym felly'n buddsoddi £20m ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer iechyd meddwl gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn ychwanegol at godiad craidd o £13m i ddyraniad iechyd meddwl wedi'i glustnodi i'r GIG. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad o dan y cynllun Cymru Iachach ar gyfer y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac yn dyblu'r cyllid o £7m i £14m a hefyd yn darparu mwy o gymorth i wasanaethau anghlinigol rheng flaen, cymorth mewn argyfwng i bobl o bob oedran a gwasanaethau asesu'r cof.

O ran dementia, amlinellodd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 y camau allweddol yr oedd angen eu cymryd i wireddu gweledigaeth y cynllun a gwella cymorth i'r grŵp hwn. Dyrannwyd £10m o gyllid cylchol y flwyddyn i gefnogi gweithrediad y cynllun, drwy'r gyllideb pobl hŷn ac iechyd meddwl. Dyrennir y rhan fwyaf o'r arian hwn (dros £9m) i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyrennir y cyllid drwy fformiwla gyllido i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022.

O ran gwasanaethau iechyd cyn-filwyr, mae gan gyn-filwyr y lluoedd arfog hawl i gael blaenoriaeth o ran mynediad i driniaeth y GIG ar gyfer cyflyrau iechyd sy'n deillio o'u cyfnod yn gwasanaethu yn y fyddin. Mae hyn yn berthnasol i Filwyr Rheolaidd, Milwyr Wrth Gefn a'r rhai a dreuliodd gyfnod yn gwneud Gwasanaeth Milwrol. Pan fydd y meddyg teulu a'r ymgynghorydd sy'n atgyfeirio claf yn cytuno bod cyflwr y claf yn gysylltiedig â'i wasanaeth yn y fyddin gofynnir iddynt roi blaenoriaeth i gyn-filwyr dros gleifion eraill sydd â'r un anghenion clinigol. Ni fydd cyn-filwyr yn cael blaenoriaeth dros gleifion eraill ag anghenion clinigol mwy dybryd. Bydd y flaenoriaeth hon yn parhau. O ran iechyd meddwl cyn-filwyr mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid rheolaidd o £685,000 i GIG Cymru i Gyn-filwyr, o fewn y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl, sef yr unig wasanaeth cenedlaethol o'i fath i gyn-filwyr yn y DU.

**Awtistiaeth**

Mae gwella gwasanaethau i bobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn 2021-2022. Byddwn yn parhau i fuddsoddi £3 miliwn yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau asesu a diagnostig i oedolion, cymorth ôl-ddiagnostig i oedolion a chymorth i rieni a gofalwyr. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Gronfa Gofal Integredig ym mhrif Ddyraniad y GIG, yn y MEG

Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, bydd oddeutu £0.6m yn parhau i gael ei fuddsoddi yn ein Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'i raglen waith. Mae'r tîm wedi bod yn allweddol o ran darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn llwyddiannus, darparu cymorth parhaus i rwydwaith awdurdodau lleol o arweinwyr awtistiaeth, a datblygu adnoddau a chymorth sydd ar gael ar ei wefan bwrpasol.

Ein blaenoriaeth ar gyfer eleni fydd cyflwyno'r Cod Ymarfer Statudol terfynol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r canllawiau cysylltiedig. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod drafft i ben ar 14 Rhagfyr 2020, a'n nod yw cyhoeddi adroddiad ymgynghori yn gynnar yn 2021. Bydd yr adroddiad yn llywio'r drafft terfynol o'r Cod a'r canllawiau yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2021.

Byddwn yn parhau â'n bwriad i ddechrau gweithredu'r Cod ym mis Medi 2021 ac i baratoi ar gyfer hyn, bydd cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys camau i godi ymwybyddiaeth o'r Cod ac i gynorthwyo sefydliadau i weithredu'r gofynion newydd. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â phobl awtistig er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth fydd y Cod yn ei olygu iddyn nhw.

Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt, sy'n cynnwys awtistiaeth, er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac i gefnogi datblygu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol a ddechreuodd yn 2020-21. Cyfanswm cost yr adolygiad fydd uchafswm o £0.120m.

Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp cynghori newydd ar awtistiaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor ac adborth ar gyflawni. Bydd y grŵp hwn yn gweithio'n agos â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn eu rôl i gefnogi cyflwyno'r strategaeth awtistiaeth.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Y brif gyllideb refeniw ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn 2021-22 yw £26.325m, wedi'i ategu gan £2.4m arall o Cymru Iachach, gan fynd â'r cyfanswm cyffredinol sydd ar gael i £28.725m.

Dyrennir y mwyafrif o hyn (£25.063m) i Fyrddau Cynllunio Ardal,drwy fformiwla gyllido i sicrhau bod Byrddau Cynllunio Ardal yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. O dan y gyllideb hon, mae £2.75m, £1m a £0.300m o'r cyllid i Fyrddau Cynllunio Ardal wedi'i neilltuo ar gyfer plant a phobl ifanc, Haen 4 (adsefydlu preswyl a dadwenwyno cleifion mewnol) a gwasanaethau cwnsela yn y drefn honno. Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi agenda adfer Llywodraeth Cymru o ran triniaeth i bobl sy'n agored i niwed ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19.

Mae cyllid Byrddau Cynllunio Ardal yn ategu dyraniadau camddefnyddio sylweddau'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi cynyddu £0.960m yn 2021-22 i gyfanswm o £20.774m ac fe'i defnyddir i gomisiynu/prynu ystod o adnoddau addysg, triniaeth atal a mentrau gorfodi.

Mae gweddill yr arian yn y Cam Gweithredu yn cefnogi'r canlynol:

- Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru (£1.98m) - nod y Rhaglen yw gweithredu mewn 100% o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i addysgu plant am gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ar bob cam allweddol o'r cwricwlwm. Mae'r Rhaglen hon yn bwysig o safbwynt addysg a gwaith atal (gan ategu'r broses o Ddiwygio'r Cwricwlwm), ond mae hefyd yn cefnogi anghenion iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc o ganlyniad i effaith COVID-19, yn unol â'r cynllun parhad.
- Mentrau Cyffuriau ac Alcohol (£0.985m) - mae'r gyllideb hon yn cynnwys nifer o feysydd gwaith sy'n gweithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, drwy waith ymchwil, datblygu polisi a monitro gwaith sy'n gysylltiedig ag ymyriadau sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol. Bydd y camau hyn yn allweddol yn yr agenda adferiad er mwyn bwrw ymlaen â Chynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22, a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn sgil effeithiau COVID-19. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys gofynion deddfwriaethol yn ymwneud ag isafbris uned am alcohol.
- Cyfraniad o £0.697m ar ffurf arian cyfatebol i'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith - Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ariennir ar y cyd â'r adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y Gyllideb gyfalaf ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yw £5.072m sy'n cefnogi'r gofynion cyfalaf parhaus i ddarparu'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen.

**Profiad y Claf**

Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn darparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r GIG yng Nghymru, y rhai sy'n ei reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae saith Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru, sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal. Maent yn cyflwyno sylwadau i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd, mae cyrff y GIG yn ymgynghori â nhw mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth ac maent yn darparu cyngor a chymorth i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno am driniaeth y GIG o dan weithdrefn gwyno'r GIG.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn goruchwylio'r saith Cyngor Iechyd Cymuned lleol yng Nghymru. Caiff Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned eu lletya gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae'r gyllideb wedi'i chynnwys fel rhan o brif ddyraniad y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pasiwyd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 gan y Senedd ar 17 Mawrth 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin.  Un o nodau'r Ddeddf yw cryfhau llais dinasyddion, drwy ddisodli Cynghorau Iechyd Cymuned â chorff cenedlaethol newydd, sef Corff Llais y Dinesydd.

Bydd y Corff newydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng Nghymru ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n cyd-fynd yn llwyr ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Cymru Iachach ar gyfer integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn agosach.

Mae Bwrdd Gweithredu yn cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith o sefydlu Corff Llais y Dinesydd.  Bydd ganddo amryw ffrydiau gwaith, gan gynnwys y rhai a grewyd i ymdrin â throsglwyddo staff o'r Cynghorau Iechyd Cymuned i'r Corff newydd, caffael system TG a ffrwd waith llywodraethu.  Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer sefydlu'r corff yn 2021-22 yw £2.6m a chytunwyd arno yn 2019 o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Pwysau Iach: Cymru Iach**

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad o £5.5m i gyflawni'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.  Mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y cynllun cyflawni, a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2020 ac sy'n nodi ymrwymiadau fel rhan o'r strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach Cymru, gan arwain at oedi wrth gwblhau cyflawniadau 2020.  Fodd bynnag, y cynigion a nodwyd yn 2020-21 yw ein ffocws o hyd a byddwn yn cyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer eu cyflawni yn 2021-22. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar:

- Gymorth ar gyfer Llwybr Gordewdra Clinigol, a fydd yn datblygu gwasanaethau i blant a theuluoedd ac yn datblygu cymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer rhaglen Rheoli Pwysau yn ystod Beichiogrwydd a fydd yn cyflwyno model cyflawni cenedlaethol ar gyfer arfer gorau, gydag arbenigedd a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol.
- Ymyrraeth ar gyfer Plant a Theuluoedd a fydd yn anelu at gefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, wedi'i thargedu at y gyfran uchaf o blant gordew, yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Plant. Bydd hyn yn cysylltu â seilwaith drwy Dechrau'n Deg a chyda dulliau presgripsiynu cymdeithasol a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad eisteddog ac anghydraddoldebau iechyd er mwyn datblygu cynlluniau peilot i brofi ffyrdd newydd o weithio.
- Gwaith datblygu systemau drwy Fyrddau Iechyd Lleol a phartneriaid, i sicrhau ymgysylltiad pwrpasol â phlant a theuluoedd, er mwyn grymuso prosesau gwneud penderfyniadau a datblygu atebion lleol.
- Datblygu ymchwil a mewnwelediad i ymddygiad a fydd yn arwain at ddatblygu camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth drwy'r cynllun cyflawni.

**Canran/cyfran cyllideb Cymru sy'n cael ei dyrannu i iechyd meddwl a lles yn y Gyllideb Ddrafft, a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.  Manylion unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ran meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft o'u**

**cymharu â'r blynyddoedd blaenorol (e.e. lleihau grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu**)

**Iechyd Meddwl**

Yn y gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22, rydym yn dyrannu £9.4m ychwanegol o fewn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a £33m ar gyfer Iechyd Meddwl yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ochr yn ochr yn y cyllid a glustnodwyd ar gyfer Iechyd Meddwl y GIG ar gyfer cyflogau a chwyddiant (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), bydd hyn gyfystyr â mwy na £42m o fuddsoddiad ychwanegol mewn cefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl yn 2021-22.
Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn Iechyd Meddwl ar draws y Llywodraeth, yn unol â'n dull o atal ac amddiffyn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth gyda thai, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Byddwn yn parhau i ddiogelu gwasanaethau iechyd meddwl ac yn buddsoddi mwy nag mewn unrhyw ran arall o'r GIG. Rydym wedi cynyddu'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £700 miliwn yn 2020-21, gan gynyddu i £726.782m yn 2021-22. Mae'r cynnydd yn yr arian sydd wedi'i glustnodi yn 2021-22 yn cynnwys £1m i gefnogi gwasanaethau iechyd carchardai.

Yn ogystal â'r dyraniadau newydd ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22 bydd y BEL Iechyd Meddwl yn parhau i gyllido'r meysydd canlynol: Cyllid ar gyfer Rhaglen Iechyd Meddwl (£3.029m), 'Cymru Iachach' - Iechyd Meddwl (£7.1m), a'r gyllideb Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl, gan gynnwys cefnogi'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia (£16.731m).
Yn gynwysedig yn y BEL hon mae'r cyllid ar gyfer y Dull Systemau Cyfan, sef £3m (gyda £2m yn dod o'r MEG Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus).

**Camddefnyddio Sylweddau**

Yn 2019-20 cafwyd cynnydd o £2.4m yn elfen cyllid Camddefnyddio Sylweddol y Byrddau Cynllunio Ardal a oedd yn cynrychioli cynnydd o 10% yn y gyllideb. Cynghorwyd Byrddau Cynllunio Ardal i ddefnyddio'r arian ychwanegol i wella gwasanaethau mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd
- Plant a theuluoedd yn enwedig y rhai ar gyrion gwasanaethau
- Lleihau niwed gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Mae'r gyllideb ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi'i diogelu ar y lefel a ddyrannwyd yn flaenorol yn 2019-20.

**Bond Llesiant - Y Gronfa Iach ac Egnïol**

Ariennir y Gronfa Iach ac Egnïol, a lansiwyd yn 2018, o gyllidebau canolog Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl a Gwella Iechyd, ynghyd â chyfraniad gan Chwaraeon Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys manteision i iechyd meddwl a chorfforol gyda phrosiectau'n darparu dull newydd, arloesol o gefnogi pobl o bob oed a chefndir. Mae'r prosiectau hyn yn darparu amrywiaeth o gynrychiolaeth ddaearyddol ledled Cymru, gan gynnwys yn ardal Tasglu'r Cymoedd.

Amharwyd ar y Gronfa Iach ac Egnïol gan yr oedi cyn cychwyn y gronfa, llifogydd a Covid-19, ac o'r herwydd mae proffil gweithgaredd y grant wedi symud i'r 3edd flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gynyddu cyllideb y rhaglen i £1.37m yn 2021-22. Mae'r angen i sicrhau dull iechyd ataliol tuag at adferiad ar ôl y pandemig yn fwyfwy amlwg, ac mae cynyddu'r gyllideb yn rhoi'r cyfle i ddatblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o bartneriaethau iechyd a gweithgaredd corfforol, ynghyd â ffocws ar atal afiechyd.

**I ba raddau y mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar eich blaenoriaethau/dyraniadau i linellau cyllideb o fewn Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (h.y. i ba raddau y mae'r rhai mwyaf difreintiedig yn cael eu blaenoriaethu gan ddiwallu eu hanghenion drwy'r Gyllideb Ddrafft hon).**

**Iechyd Meddwl**

Rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiad i wella iechyd meddwl drwy ei osod fel un o ddim ond chwe maes blaenoriaeth yn ein Strategaeth Genedlaethol - *Ffyniant i bawb.* Mae hyn yn herio nid yn unig y maes iechyd, ond Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd i ystyried ei heffaith ar iechyd meddwl ym mhopeth a wna. Mae'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ei hun yn strategaeth 10 mlynedd traws-lywodraeth, sy'n cefnogi natur gydweithredol a hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae canlyniadau'r strategaeth yn cyd-fynd yn glir â'r nodau'r Ddeddf.

Mae'r cynllun yn sicrhau ein bod yn symud tuag at well integreiddio, cydgynhyrchu a dull mwy cyfannol gan ein bod hefyd yn defnyddio dull traws-Lywodraethol ac amlasiantaeth o gefnogi iechyd meddwl. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried effaith y pandemig ar iechyd meddwl poblogaeth Cymru. Er mwyn ymateb i'r effaith economaidd-gymdeithasol ehangach hon, mae angen dull traws-Lywodraethol ac amlasiantaeth ac nid yw'n rhywbeth y gall y GIG na hyd yn oed y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ei wneud ar eu pen eu hunain. Felly, nodwyd camau i gefnogi iechyd meddwl y genedl drwy'r cyfnod hwn gan alluogi camau ataliol, amddiffynnol traws-lywodraethol yn ogystal â sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd meddwl priodol ar waith i ddiwallu anghenion pobl.

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2020

**Camddefnyddio Sylweddau**

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym wedi sicrhau bod y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni o ran camddefnyddio sylweddau yn glir o ran y cyfraniad a wnânt at nodau'r Ddeddf.

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn un o rolau allweddol y Byrddau Cynllunio Ardal sy'n cefnogi hyn ar sail ranbarthol (sy'n cydffinio ag ardaloedd byrddau iechyd) i sicrhau partneriaeth agos rhwng partneriaid allweddol gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector. Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn thema ganolog ac mae'n cefnogi datblygiad cydweithredol gyda'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau neu sydd â phrofiad personol ohonynt.

**Profiad y Claf**

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn chwarae rhan bwysig o ran cynnwys eu poblogaethau lleol, ceisio eu barn ar wasanaethau iechyd, a chydweithio a gweithio â chyrff y GIG i sicrhau bod barn y cyhoedd yn hysbys mewn perthynas ag, er enghraifft, newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth. Mae adborth o'r fath hefyd yn helpu i wella gwasanaethau ac yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i atal problemau rhag gwaethygu er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Yn ystod y broses o sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cydbwyso anghenion tymor byrrach Cynghorau Iechyd Cymuned â nodau tymor hwy y Corff newydd, a fydd yn eu disodli. Bydd hyn yn caniatáu proses bontio ddidrafferth, a fydd yn sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn cael ei sefydlu i gyflawni ei nodau o gyfleu llais gwirioneddol gynrychioliadol y dinesydd yng Nghymru a defnyddio profiad defnyddwyr gwasanaethau i ysgogi gwelliannau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau'r Ddeddf o atal problemau rhag codi a chefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant, yn enwedig mewn perthynas â hybu iechyd da a darparu gwasanaethau o ansawdd.

**Y Gronfa Iach ac Egnïol**

Nod y Gronfa Iach ac Egnïol yw ceisio ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r 5 ffordd o weithio yn y ffordd y caiff ei dylunio, ei chyflawni, ei monitro a'i gwerthuso. Nod amcanion y rhaglen yw gwella llesiant drwy ddull sy'n pontio'r cenedlaethau, gan gynnwys cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i fyw bywydau egnïol ac annibynnol yn yr hirdymor.

**Sut y bydd dyraniadau cyllid y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflawni diwygiedig Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys manylion y cymorth ariannol i elusennau a'r Trydydd Sector wrth gefnogi'r rhai â phroblemau iechyd meddwl (h.y. gwasanaethau cynghori, llinellau cymorth atal hunanladdiad).**

**Iechyd Meddwl**

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022, sydd bellach wedi'i gryfhau yng nghyd-destun Covid-19 gan y derbynnir yn gyffredinol y bydd y pandemig yn cael, ac wedi cael, effaith sylweddol ar y galw a'r angen am gymorth ar gyfer iechyd meddwl.

Bydd y cynnydd yn ein buddsoddiad mewn iechyd yn ein galluogi i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl drwy leihau'r galw am gymorth mwy arbenigol, drwy warant gwasanaeth gofynnol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl lefel isel a hefyd drwy gryfhau cymorth ar lefel genedlaethol ar gyfer meysydd fel gwasanaethau anghlinigol rheng flaen a chymorth mewn argyfwng i bobl o bob oedran. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd i gefnogi gweithredu ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) (£5.4m) a'r Dull Systemau Cyfan o weithredu ar iechyd meddwl (£4m).  Bydd hyn yn helpu'r ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i symud i ddarpariaeth ataliol, integredig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Cynigir cymorth i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl ar lefel gymunedol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ond mewn rhai achosion efallai y bydd angen triniaeth cleifion mewnol ar gyfer yr ymyrraeth CAMHS arbenigol hon ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed, felly o ran CAMHS, bydd y cyllid ychwanegol yn y gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i gryfhau cynlluniau gwasanaethau CAMHS y GIG yn Haen 4 (gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gofal i gleifion mewnol) a Thimau Gofal Dwys Cymunedol.   O ran y Dull Systemau Cyfan, byddwn yn ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu'r ddarpariaeth o fewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot.

Mae gan y Trydydd Sector rôl arbennig o bwysig i'w chwarae wrth ddarparu cymorth ataliol, anfeddygol, Haen 0 ac rydym wedi buddsoddi £2.7m ychwanegol yn 2020/21 i ddarparu cymorth ychwanegol. Bydd hyn yn cynyddu yn 21-22 wrth i gynlluniau ar gyfer dyrannu grantiau gael eu cwblhau. Byddwn hefyd yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol i barhau â'u gwaith pwysig ym maes iechyd meddwl gan olynydd y grant iechyd meddwl adran 64 y disgwylir iddo ddod i ben yn 2021.

Mae atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn cymryd nifer o gamau i gefnogi hyn. Yn sail i hyn mae ein Strategaeth Beth am Siarad â Mi 2 ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r gwaith sydd bellach ar y gweill drwy'r Cydlynydd Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed. Mae gwaith atal a'r gallu i ymyrryd yn gynnar yn gwbl allweddol wrth gwrs a byddwn yn parhau i gryfhau ein gwasanaethau cymorth haen 0/1 a'n hymateb i argyfwng, ochr yn ochr ag ystod o ddulliau rhanbarthol er mwyn lleihau hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys cymorth ar ôl profedigaeth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.  Ochr yn ochr â chyllid iechyd meddwl ehangach, rydym yn parhau i ymrwymo £0.5m ychwanegol y flwyddyn i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad, gyda chefnogaeth tri Chydlynydd Rhanbarthol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen a chydlynu'r asiantaethau niferus sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon.

Yn ogystal, mae'n amlwg bod iechyd meddwl yn ymrwymiad trawsbynciol i Lywodraeth Cymru a gofynnir i bob adran ystyried effaith pob polisi a rhaglen ar lesiant iechyd meddwl. Mae'r angen am y dull traws-Lywodraethol hwn wedi'i amlygu fwyfwy oherwydd effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig. Mae cyllid uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl hefyd yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad traws-lywodraethol ehangach mewn meysydd sy'n diogelu iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth, dyled a thai - ond hefyd mewn meysydd fel y celfyddydau, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd sy'n chwarae rhan bwysig o ran diogelu a gwella llesiant.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi gweithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22.

Mae'r niwed sy'n gysylltiedig chamddefnyddio sylweddau yn cael effaith anghymesur ar ein cymunedau tlotaf ac mae'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn effeithio ar ein cymdogaethau tlotaf fel y nodir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau chwe gwaith yn uwch yn y cymunedau tlotaf a hefyd mae'r niwed yn sgil cyffuriau ac alcohol yn sylweddol i'r boblogaeth ddigartref. Yn ystod yr ymateb i COVID 19 mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi gweithio'n agos â gwasanaethau digartrefedd i sicrhau bod cymorth ar gael i gyflawni ein huchelgais o sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar y stryd.

Yn ogystal ag effeithio ar y bobl hynny sy'n camddefnyddio sylweddau ei hunain, mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio ar eu teuluoedd a'u cymunedau hefyd. Dywed rhai awdurdodau lleol fod hyd at 80% o blant sydd mewn perygl o fynd i ofal yn y sefyllfa honno oherwydd bod eu rhieni'n camddefnyddio sylweddau.

Mae gan lawer o bobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol broblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau hefyd sydd, i lawer, yn rhwystr i driniaeth os nad eir i'r afael â hwy. Mae Camddefnyddio Sylweddau yn ffactor arwyddocaol mewn marwolaethau cynnar gyda 165 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2019, sef gostyngiad o gymharu â 208 yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2019, yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oedd 43 oed.

Drwy gefnogi gwaith atal a chanolbwyntio ar wella iechyd a llesiant unigolion a theuluoedd, rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant y Llywodraeth yn 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'. Bydd ein dull traws-Lywodraethol hefyd yn cyfrannu at feysydd blaenoriaeth y Llywodraeth, megis y Blynyddoedd Cynnar, Tai a Gwell Iechyd Meddwl gan ein helpu i gyflawni ein huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb.

Rydym wedi gweithio gyda'n llinell gymorth genedlaethol DAN 24/7, i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael mewn perthynas â COVID-19 a chyngor ar ba wasanaethau sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gwybodaeth ar wefan DAN 24/7 sy'n darparu diweddariadau ar COVID -19.

4. **Yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddyraniadau**

**Manylion am sut y mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Gyllideb Ddrafft ers blynyddoedd blaenorol - o ganlyniad i COVID-19. Yn benodol;**

**- A yw'r cyllid ar gyfer iechyd meddwl a lles, ar draws pob maes o'ch portffolio, wedi'i ddiogelu/cynyddu/lleihau yn ystod y pandemig, a sut mae'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft (h.y. enghreifftiau o'r buddsoddiad ychwanegol o ran capasiti cleifion mewnol iechyd meddwl – cynaliadwyedd hyn yn y tymor byr a'r tymor hwy). Manylion am yr achosion a welwyd o ailddefnyddio cyllid o'r Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r rhaglen Pwysau Iach, Cymru Iach. Sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft.**

**Iechyd Meddwl**

Yn gynnar yn 2020-21, fe wnaethom nodi bod ein gwasanaethau iechyd meddwl yn 'wasanaethau hanfodol' ac i gefnogi hyn, fe wnaethom gyhoeddi £3.5m o gyllid i wella gwasanaethau iechyd meddwl ar unwaith ar gyfer byrddau iechyd lleol i'w galluogi i ymateb yn hyblyg i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ym maes iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth argyfwng / y tu allan i oriau a mwy o fynediad at ymyriadau seicolegol. Mae'r cyllid hwn, a'r £3.5m sy'n weddill o'r cyllid gwella gwasanaethau, y manylir arno isod bellach o fewn prif ddyraniad y GIG ar gyfer 21-22.

Drwy gydol 2020, fe wnaethom gyhoeddi cyllid ychwanegol i'r GIG, y trydydd sector ac Awdurdodau Lleol ar gyfer iechyd meddwl.

- £3.5m sy'n weddill o'r cyllid gwella gwasanaethau i'w fuddsoddi yn unol â blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Mae hyn yn seiliedig ar y swm a glustnodwyd ar gyfer Iechyd Meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG yn 21-22.*
- £5m ar gyfer y dull ysgol / systemau cyfan, a fydd yn parhau yn 2021/22 ac yn cynyddu i gyfanswm o £9m.
- £1.3m i gyflymu darpariaeth haen 0/1 i gefnogi gwasanaethau mynediad agored ac £1.4m o gyllid ychwanegol i ymateb i Covid wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl y Sector Gwirfoddol yn rhanbarthol. Bydd cymorth ychwanegol i wasanaethau mynediad agored/sector gwirfoddol yn parhau i 2021/22 o'r £20m ychwanegol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer iechyd meddwl.
- £2.2m ar gyfer capasiti ymchwydd mewn perthynas â darpariaeth cleifion mewnol ledled Cymru. Dyraniad unwaith ac am byth yn 20-21.
- £1m i ymestyn y cynllun cymorth iechyd meddwl i feddygon i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gan y rhai ar y rheng flaen fynediad at

gymorth. Bydd y gwasanaeth hwn yn parhau yn 21-22 ac yn cael ei ymestyn i weithwyr gofal.

- £50,000 ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl gofalwyr di-dâl.

* Mae'r £7m llawn ar gyfer cyllid gwella gwasanaethau a fuddsoddwyd yn unol â blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd rhwng 2021-22.

**Pwysau Iach: Cymru Iach**
Cafodd £2m o'r gyllideb Pwysau Iach: Cymru Iach yn 2020-21 ei ailgyfeirio er mwyn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn bosibl gan nad oedd partneriaid yn gallu cyflawni'r rhaglen, oherwydd y pwysau yn sgil yr ymateb i'r pandemig. Cydnabuwyd pwysigrwydd llesiant a'r angen i ganolbwyntio ar effeithiau'r pandemig ar ordewdra a lefelau gweithgaredd gyda chyllid parhaus o £5.5m ar gyfer 2021-22 i sicrhau y gellir dod â'r strategaeth yn ôl ar y trywydd iawn, wrth ymateb i heriau penodol yn sgil y pandemig o ran ymddygiad a materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd yn y tymor byr a'r tymor canolig i'r tymor hir. Mae'n bwysig cydnabod bod gordewdra a bod dros bwysau yn broblemau iechyd hirdymor nad oes modd eu newid yn gyflym, ac felly bydd angen amser a chydweithrediad er mwyn cyflwyno rhaglen ataliol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn seiliedig ar boblogaeth.

***- Pa gyfran o'r cynnydd mewn refeniw o'r cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau o fewn portffolios a/neu addasiadau i gyllideb Cymru sydd wedi/a fydd yn cael ei ddefnyddio at ddiben Llinellau Gwariant yn y Gyllideb wrth ymateb i effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a lles. Sut mae hyn yn cymharu ag iechyd corfforol.***

**Iechyd Meddwl**
Yn ogystal â'r dyraniadau, y manylir arnynt uchod, a wnaed yn ystod y pandemig yn 2020, bydd dros £42m yn cael ei ddyrannu i gefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl rhwng y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg fel rhan o'r gyllideb Ddrafft 21-22. Yn ogystal â hynny, gellir gweld buddsoddiadau eraill mewn Iechyd Meddwl ar draws y Llywodraeth, yn unol â'n dull o atal a diogelu iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Mae'r dyraniadau cyllid hyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl rheolaidd a fydd yn cynyddu'r llinell sylfaen a rhoddir ystyriaeth bellach i fesurau ymateb penodol i Covid wrth inni agosáu at 21-22. Mae'r gyllideb ddrafft hon wedi canolbwyntio ar gadarnhau lefel y buddsoddiad rheolaidd mewn iechyd meddwl a llesiant sydd ei angen er mwyn ymateb i effaith hirdymor y pandemig. Er bod gennym obaith bellach drwy'r brechlynnau, erys llawer o ansicrwydd ynghylch yr union lwybr y bydd y pandemig yn ei ddilyn a'r effeithiau y bydd hyn yn parhau i'w cael ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach yn ystod y flwyddyn nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau gwariant yn ymateb yn y ffordd orau i'r heriau esblygol sy'n codi o'r pandemig, barnwyd ei bod yn ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn y gyllideb Ddrafft ac rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach

yn y Gyllideb derfynol ar gyfer ein hymateb i'r pandemig wrth inni ddod i ddeall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Yn 2020-21, ailddyrannwyd hyd at £3.5m er mwyn darparu triniaeth a brofwyd yn glinigol ar gyfer Therapi Amnewidion Opioid ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sydd 'mewn perygl'. Mae'n bigiad is-groenol sy'n cael ei ryddhau'n araf ac sy'n para 28 diwrnod ac yn disodli'r angen am feddyginiaeth ddyddiol drwy'r geg. Ymhlith y manteision ers ei weithredu ym mis Mawrth 2020 mae'r canlynol:

- Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol o ran canlyniadau'r driniaeth a manteision cymdeithasol i'r unigolion, gan gynnwys llai o droseddu, gyda llawer yn disgrifio eu profiad fel un sydd wedi newid eu bywyd.
- Mae Buvidal wedi arwain at ostyngiad cyflym yn yr angen am gyswllt dyddiol â staff rheng flaen y GIG a fferyllwyr, gan arbed oddeutu 100,000 o ymweliadau â fferyllfeydd cymunedol rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, gan leddfu pwysau ar wasanaethau lleol.
- Y gallu i ryddhau capasiti mewn gwasanaethau arbenigol cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, i gynorthwyo cleifion mwyaf cymhleth, gan gynnwys y sector digartref er mwyn symud pobl sy'n cysgu allan ar y stryd i lety a chymorth
- Mae dros 500 o bobl bellach yn elwa ar y driniaeth newydd hon.

***- Sut y mae dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig a/neu lle mae'r pandemig a'r mesurau cloi wedi cael effaith anghymesur ar les rhai grwpiau o bobl (fel oedolion hŷn, cymunedau BAME a'r rheini sydd ar incwm isel neu sydd heb sicrwydd ariannol). Sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu (h.y. mynediad at gymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol, buddsoddi mewn therapïau seicolegol, atal hunanladdiad, mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, mynd i'r afael ag ymddygiadau afiachus fel camddefnyddio sylweddau, gor-fwyta).***

**Iechyd Meddwl**

Ailgyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl ym mis Hydref ac mae wedi'i gryfhau er mwyn ymateb i effaith y pandemig. Mae angen parhau â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun ond - yn bwysicach - mae'n amlinellu'r camau y bu'n rhaid inni eu cyflymu er mwyn ymateb i anghenion uniongyrchol, er enghraifft, ein buddsoddiad mewn cymorth Haen 0/1. Mae'r cynllun hefyd yn nodi camau traws-Lywodraethol newydd i ymateb i effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig. Mae hyn yn cynnwys drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd wedi'u harwain gan iechyd, cymorth pellach i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'n gwaith i integreiddio cymorth iechyd meddwl yn well, er enghraifft i'r rhai sydd mewn dyled neu sydd ag anghenion tai.

Bydd ein buddsoddiadau mewn iechyd meddwl ar gyfer 21-22 yn cwmpasu'r meysydd hyn ac yn cael eu dyrannu i gefnogi'r meysydd / camau blaenoriaeth a nodir yn y cynllun cyflawni.

**Amser i Newid Cymru**
Ymgyrch sydd â'r nod o ddod â'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl yng Nghymru i ben yw Amser i Newid Cymru. Mae lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn gam gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22.

Bwriedir ymestyn y rhaglen yn 2021-22 i sicrhau parhad i waith gwrth-stigma yng Nghymru, yn enwedig gyda'r risgiau uwch o ran Covid-19 a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar iechyd meddwl pobl. Awgrymir y dylai Amser i Newid Cymru archwilio ffyrdd o gyrraedd cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y cyfnod ymestyn. Bydd y pandemig Covid-19 yn arwain at ganlyniadau economaidd difrifol, gan effeithio'n anghymesur ar y grwpiau mwyaf ymylol mewn cymdeithas gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi ac amddifadedd. Gwelir eisoes bod pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn mwy o berygl o ddal covid-19 ac maent yn fwy tebygol o fod yn profi effeithiau andwyol ychwanegol y coronafeirws (megis problemau gyda thai a chyllid).

Bydd gweithwyr yn y system budd-daliadau a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn cael eu targedu i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn profi llai o stigma oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr o effaith stigma yn sgil ymyrraeth beilot.

**Pwysau Iach: Cymru Iach**
Mae tystiolaeth bod unigolion sydd dros bwysau neu'n ordew yn fwy tebygol o orfod mynd i'r ysbyty a'u bod yn fwyfwy tebygol o gael eu derbyn i adran gofal dwys a bod angen triniaeth ddwysach oherwydd Covid-19. Byddwn yn buddsoddi £5.5m ychwanegol yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn ein llwybr gordewdra drwy Fyrddau Iechyd Lleol i ddarparu ystod o wasanaethau i oedolion a phlant er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael y lefel gywir o gymorth a chefnogaeth. Gall hyn fod drwy gymorth ar-lein, cymorth i reoli pwysau, cymorth aml-broffesiynol dwysach neu fynediad at lawdriniaeth fariatreg.

Mae risg y bydd y pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol gydag unigolion â phroblemau iechyd presennol yn fwy tebygol o fod yn anweithgar ac wedi wynebu mynediad cyfyngedig at fwyd yn ystod y pandemig. Mae unigolion ar incwm isel mewn mwy o berygl o fod yn ordew cyn y pandemig ac maent yn fwy tebygol o fod wedi dioddef niwed ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Dyna pam y byddwn hefyd yn cyflawni gwaith yn uniongyrchol gyda chymunedau drwy ddulliau'n seiliedig ar systemau a thrwy beilot o Raglen Plant a Theuluoedd. Bydd y cyllid yn manteisio ar gyfleoedd i barhau i gael mewnwelediad ac i wneud ymchwil i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar newid ymddygiad.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Mae cyllid Camddefnyddio Sylweddau yn cefnogi'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Diweddarwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Rhagfyr 2020 i ymgorffori newidiadau mewn blaenoriaethau o ganlyniad i COVID-19, yn benodol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, ac y bydd angen ei wneud yn 2021-22 a thu hwnt, o ganlyniad i'r pandemig.

Gall camddefnyddio sylweddau gael effaith ddinistriol ar unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau. Nod trosfwaol y cynllun yw lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol i'r unigolyn ar chymdeithas ehangach.

Yn hollbwysig, gwnaed gwaith sylweddol i ddiogelu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys Therapi Amnewidion Opioid a chymorth i deuluoedd. Barnwyd bod y gwasanaethau hyn yn hanfodol drwy Fframwaith Gweithredu'r GIG ar ddechrau'r pandemig i sicrhau eu bod ar gael o hyd. Mae'r cymorth hwn wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu ymateb i anghenion nifer sylweddol o bobl sydd angen cymorth a diwallu'r anghenion hynny fel rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oedd neb yn cael ei adael ar y stryd.

Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi addasu'n gyflym i'r amgylchiadau newidiol, gan symud i ddarparu ymgynghoriadau ar-lein (Skype) a gwasanaethau cymorth seicolegol a sicrhau cefnogaeth barhaus. Mae hyn wedi cynnwys - lle bo angen - cyflwyno meddyginiaethau Therapi Amnewidion Opioid i'r rhai sy'n hunanynysu neu'n methu â chael gafael ar eu meddyginiaeth am resymau eraill.

Yn ogystal â hynny, mae'r Cynllun Cyflawni wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu'r gwaith partneriaeth sylweddol sydd wedi'i wneud i gefnogi gwaith i gartrefu pawb sy'n ddigartref a pharatoi ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar.

Meysydd penodol perthnasol yn y Cynllun Cyflawni:

- Mae £2.75m wedi'i neilltuo i gefnogi plant a theuluoedd. Rydym yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau a'r risg y bydd plant yn mynd i ofal ac rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod gan bob teulu fynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gyda'i gilydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Cam gweithredu i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion pobl o bob oed, gan gynnwys oedolion hŷn.
- Cam gweithredu i ymateb yn effeithiol i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd sy'n gyffredin ymysg y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Yn benodol, ymgymryd â darn manwl o waith i ddeall yn well y rhwystrau i gynnydd yn y maes hwn, a'r cyfleoedd i wneud cynnydd.
- Cam gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a all fod yn rhwystr i bobl gael cymorth o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Camau gweithredu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau er mwyn annog pobl i geisio cymorth yn y lle cyntaf, ond hefyd i ailintegreiddio pobl sy'n adfer i'r gymuned ehangach.

**Atal Hunanladdiad**

Fel yr amlinellir uchod, rydym yn parhau i ymrwymo £500,000 yn ychwanegol y flwyddyn i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad, gyda chefnogaeth tri Chydlynydd Rhanbarthol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen a chydlynu'r asiantaethau niferus sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon.

Mae cyllid iechyd meddwl ehangach yn cefnogi'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019-22. Diweddarwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Hydref 2020 i ymgorffori newidiadau mewn blaenoriaethau o ganlyniad i COVID-19, yn benodol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, ac y bydd angen ei wneud yn 2021-22 a thu hwnt, o ganlyniad i'r pandemig.

**Unigrwydd ac Ynysigrwydd**
Yn ystod 2021-22 byddwn yn parhau i sicrhau bod £0.750m ar gael i gefnogi'r strategaeth unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, bydd Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol yn cael ei sefydlu yn 21-22 i brofi dulliau arloesol o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a / neu gynyddu dulliau addawol o estyn allan at y rhai sydd eisoes yn unig a / neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol.

***- Manylion penodol ar y dyraniadau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr ag esboniad p’un a yw'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniad penodol ar gyfer adnoddau staffio ychwanegol o ran y gweithlu iechyd meddwl, yn enwedig wrth gefnogi'r rheini â dementia ac awtistiaeth.***

Yn 2020 darparwyd £1m ychwanegol i ymestyn y cynllun cymorth iechyd meddwl i feddygon i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gan y rhai ar y rheng flaen fynediad at y cymorth y maent yn ei haeddu. Bydd y gwasanaeth cynyddol hwn yn parhau yn 21-22 gyda chynlluniau ar y gweill i'w ymestyn ymhellach i gynnwys staff gofal cymdeithasol.

Yn y Cynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 mae cam gweithredu i ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl. Mae cynllun y gweithlu yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Cynhaliodd AaGIC a GCC ymarfer mapio gyda Byrddau Iechyd drwy gydol mis Tachwedd i nodi staff a swyddi a bydd hyn yn llywio cynllun y Gweithlu ar gyfer Iechyd Meddwl y bwriedir ymgynghori arno ddiwedd 2021. Drwy gydol mis Hydref, arweiniodd AaGIC a GCC gynhadledd rithwir ar y cyd a barhaodd am fis er mwyn ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid i fod yn sail i gynllunio'r gweithlu iechyd meddwl yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn llywio gwariant yn y dyfodol ar weithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc, fodd

bynnag, yn y cyfamser mae elfennau o'r cyllid gwella gwasanaethau yn cael eu dyrannu i gefnogi'r anghenion hyfforddi a datblygu a nodwyd gan fyrddau iechyd.

O ran dementia, sefydlwyd Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia, sy'n atebol i'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG). Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn wedi ailffocysu ei weithgaredd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws. Mae hyn oherwydd bod tystiolaeth i awgrymu bod y pandemig ac effaith y cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar bobl sy'n byw gyda dementia. Mae tystiolaeth gan bobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynychu gweminarau rheolaidd Gweithgor Dementia'r 4 Gwlad yn cefnogi'r awgrym bod llawer yn profi dirywiad gwybyddol a chorfforol ac yn colli hyder. Gellir hefyd ddefnyddio'r dyraniadau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia i gefnogi'r gweithlu gan fod hyn yn flaenoriaeth allweddol yn y cynllun gweithredu.

## 5. Gwaith trawslywodraethol ac ar draws sectorau

***Enghreifftiau o ddyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft sy'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn cymryd dull 'system gyfan', trawslywodraethol, cydgysylltiedig o wella iechyd meddwl a lles pobl - gan gydnabod penderfynyddion ehangach iechyd meddwl a lles (h.y. nad y GIG yn unig sy’n gyfrifol am y maes). Sut i sicrhau na chollir y ffocws ar fesurau atal/ymyrraeth gynnar o ganlyniad i'r pandemig, a sut yr adlewyrchwyd hyn yn nyraniadau’r Gyllideb Ddrafft***

**Iechyd Meddwl (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)**

Cydnabyddir bod iechyd meddwl yn ymrwymiad trawsbynciol i Lywodraeth Cymru a gofynnir i bob adran ystyried effaith pob polisi a rhaglen ar lesiant iechyd meddwl. Mae'r angen am y dull traws-Lywodraethol hwn wedi'i amlygu fwyfwy oherwydd effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig ac mae'r agweddau hyn wedi cael eu cryfhau yng *Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.*

Rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw fuddsoddiad mewn gwasanaeth iechyd meddwl gael ei gefnogi gan fuddsoddiad traws-lywodraethol ehangach mewn meysydd sy'n diogelu iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth, dyled a thai - ond hefyd mewn meysydd fel y celfyddydau, chwaraeon a mynediad i fannau gwyrdd sy'n chwarae rhan bwysig o ran diogelu a gwella llesiant. Mae'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl hefyd yn adlewyrchu ehangder y camau gweithredu traws-Lywodraethol sydd eu hangen i wella iechyd meddwl ac i atal salwch meddwl.

Mae enghreifftiau o fuddsoddiad traws-bortffolio yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £4 miliwn arall yn y dull system gyfan o ymdrin â llesiant meddyliol - mae hyn yn cynnwys ymestyn gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu bod y buddsoddiad llawn yn £9m, rhwng y MEG Addysg a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.
- £1m i gefnogi trefniadau cydweithio rhwng y meysydd tai, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth, wedi'u cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer 21-22.

Roedd y dyraniadau yn 2020 yn cynnwys:

- Gwaith gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y £40m ychwanegol a ddarperir i gefnogi ymrwymiad Covid-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddi a sgiliau yn cael ei dargedu'n effeithiol i helpu'r grwpiau hynny y mae Covid-19 yn effeithio fwyaf arnynt, gan gynnwys pobl ifanc 16-24 oed.

- £10m o gyllid i CCAUC i gefnogi partneriaid yn y sector AU i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant a chaledi ariannol.

**Camddefnyddio Sylweddau - Gwaith ataliol**
Mae Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru yn darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ar bob cam allweddol o'r cwricwlwm, ymhlith ystod o wersi eraill. Fe wnaeth Adolygiad Gweithredol o'r Rhaglen yn 2019 fraenaru'r tir ar gyfer dull system gyfan strategol. Sefydlwyd Bwrdd Strategol gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r Llywodraeth gan gynnwys y meysydd Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl, Is-adran Dysgwyr, Diogelwch Cymunedol, Cwricwlwm, Cymunedau a Dysgu Digidol er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth ar lefel uchel yn yr Heddlu.

<u>Digartrefedd a Thai</u>
Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gweithio'n agos â thimau digartrefedd i sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth cofleidiol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r grŵp hwn o unigolion y mae ganddynt anghenion cymhleth yn aml. Rydym yn darparu £1m o gyllid i gefnogi gwaith ar anghenion cymhleth (wedi'i gefnogi drwy AHW MH) ochr yn ochr â gwasanaethau tai (gan gynnwys Tai yn Gyntaf) a gwasanaethau iechyd meddwl i ddarparu gwasanaethau integredig i ddiwallu'r anghenion cymhleth hyn. Drwy gydol yr ymateb i'r argyfwng mae ein gwasanaethau wedi cydweithio'n agos i sicrhau cymorth cofleidiol i'r rhai sy'n cael eu cartrefu o ganlyniad i'r uchelgais i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar y stryd. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, cynigiodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd llawn i addasu gwasanaethau a diwallu'r galw hwn. Yn ogystal â hynny, cytunodd Llywodraeth Cymru i dalu costau buprenorffin i'w chwistrellu a oedd yn lleihau pwysau ar wasanaethau a fferyllfeydd cymunedol ymhellach gan mai dim ond pigiad misol yr oedd ei angen.

<u>Plant a Theuluoedd</u>
Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cryf i gefnogi teuluoedd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac yn benodol yr angen i Fyrddau Cynllunio Ardal weithio gyda phartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd, gan gynnwys y rhai ar gyrion gofal. Gan weithio'n agos ar draws y llywodraeth byddwn yn datblygu Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru a bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni'r rhaglen hon yn llwyddiannus. Gall cydgynhyrchu atebion teuluol er mwyn grymuso teuluoedd ac annog perchnogaeth o ddull 'cydweithio i aros gyda'n gilydd' arwain at fywyd teuluol llwyddiannus. Gall Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd fod yn rhan o ddatrysiad teuluol drwy weithio gydag ystod o weithwyr proffesiynol i gydgynhyrchu cynllun ag iddo ffocws er mwyn adfer bywyd teuluol.

O ystyried ffocws allweddol y Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd ar fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau rydym yn disgwyl gweld Byrddau Cynllunio Ardal yn ymgysylltu'n gryf â hwy i sicrhau bod y gwasanaethau presennol yn cael eu hoptimeiddio a bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael sylw mewn ffordd sy'n integredig â'r gwasanaethau presennol.

<u>Problemau Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl sy'n Cyd-ddigwydd</u>
Mae sicrhau bod ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cydweithio'n agos i ddiwallu anghenion pobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi sefydlu grŵp Craffu Manwl sy'n cynnwys clinigwyr, ymarferwyr ac arbenigwyr yn y meysydd iechyd meddwl, tai a chamddefnyddio sylweddau i ddeall yn well y rhwystrau i gynnydd yn y maes hollbwysig hwn. Mae'r grŵp bellach wedi'i ailsefydlu (ar ôl COVID) a bydd yn parhau i gefnogi atebion i'r mater hwn ac yn defnyddio cyfleoedd yn sgil y gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig i ddod â rhagor o wasanaethau ynghyd.

## Y Gronfa Iach ac Egnïol

Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon), Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru yw'r Gronfa Iach ac Egnïol ac mae egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio yn greiddiol i'w dyluniad, ei huniondeb a'r prosesau monitro a gwerthuso.

Nod y Gronfa Iach ac Egnïol yw cynyddu gweithgarwch corfforol y rhai sy'n anweithgar ar hyn o bryd neu sydd â lefelau isel iawn o weithgaredd a gwella lefelau llesiant meddyliol, gyda ffocws penodol ar gryfhau asedau cymunedol. Mae prosiectau sy'n elwa o'r Gronfa £5m yn ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar gyfer un neu fwy o'r grwpiau canlynol: plant a phobl ifanc; pobl ag anabledd neu salwch hirdymor; pobl sy'n anweithgar yn economaidd neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd; a phobl hŷn a'r rhai o oedran ymddeol. Mae'r coronafeirws wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru, ac mae'r grwpiau yr effeithir arnynt yn benodol yn grwpiau sydd â'r un ddemograffeg allweddol â'r rhai a dargedir gan y Gronfa Iach ac Egnïol.

Mae'r prosiectau'n gydweithredol ac yn cael eu darparu gan ystod o bartneriaid.  Maent yn darparu amrywiaeth o gynrychiolaeth ddaearyddol ledled Cymru, gan gynnwys yn ardal

Tasglu'r Cymoedd. Nod y prosiectau yw lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a rhwystrau mewn sawl ffordd.   Maent yn amrywio o ddulliau garddio sy'n pontio'r cenedlaethau; annog teuluoedd i fod yn egnïol gyda'u babanod newydd-anedig; i gynyddu gweithgareddau corfforol a chymdeithasol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae yna brosiectau eraill sy'n ceisio cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i arwain ffyrdd o fyw egnïol annibynnol a hirdymor, ac un sy'n defnyddio atgofion chwaraeon i helpu pobl â dementia.  Dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22 yw £1.37m.

**Yn y MEG Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:**
Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol ar draws sawl amcan llesiant Llywodraeth Cymru o dan ein Strategaeth Genedlaethol "ffyniant i bawb" gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da.  Cyflawnir hyn drwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'i ystod o effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cynllun Twf Amgylcheddol yn bwriadu bod yn naratif trosfwaol ar gyfer yr hyn yr ydym yn ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymru wyrddach, gan bennu dull strategol, mwy cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.  Bydd y cynllun yn un hirdymor ac ataliol gan anelu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur. Ei nod yw bod yn integredig ac yn gydweithredol ar draws Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth cyhoeddus ehangach, gan ymgysylltu â'r sectorau preifat a'r trydydd sector.  Y bwriad hefyd yw sicrhau manteision ehangach fel defnyddio'r amgylchedd naturiol i hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol a chael gwared ar rwystrau i iechyd e.e. llygredd aer.

**Yn y MEG Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Grant Cymorth Tai**
Yn 21-22 mae cynnydd o £40m yn y Grant Cymorth Tai i £166.6m. Mae'r grant hwn yn cefnogi gwasanaethau ataliol ac acíwt. Bydd y dyraniad hwn, ynghyd â dyraniad ychwanegol o £4m i'r Grant Atal Digartrefedd o gronfa wrth gefn Covid-19 yn sbarduno trawsnewidiad yn ein cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a mathau eraill o ddigartrefedd, yn llai tebygol o fanteisio ar wasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd hefyd gael effaith negyddol sylweddol ar y plant ar yr aelwydydd hyn gan effeithio ar eu llesiant, eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar helpu'r rhai sydd angen help nawr i gefnogi a chynnal cartref a hefyd datblygu dulliau arloesol o gyflawni wedi'u hanelu at atal pobl rhag dod yn fwy agored i niwed yn y dyfodol. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion tai ac anghenion cymorth cysylltiedig yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy ystod o fecanweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Mae'n cefnogi pobl agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau sydd weithiau'n eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i gael tai cynaliadwy a'u cadw drwy fynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu, helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant a'u helpu i gael  swydd neu gyfle hyfforddi, neu i symud gam yn agosach at hynny, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol. Mae'n ceisio lliniaru neu gael gwared ar anfantais i bobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd ag eraill, ac felly gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

**Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Tai**
Yn dilyn trasiedi Tŵr Grenfell, mae adeiladau preswyl uchel iawn yn parhau i wynebu ystod o wendidau systemig tra hysbys o ran diogelwch adeiladau. Nid problemau tai yn unig a wynebir gan breswylwyr adeiladau uchel iawn.  Mae pryderon iechyd meddwl sylweddol ynghylch y rhai sy'n byw yn y mathau hyn o eiddo. Yn 2021-22 rydym wedi dyrannu cyfalaf o £32m drwy gynnig cyfunol o gyllid grant a benthyciad. Bydd y cyllid cyfalaf yn cefnogi adeiladau 18 metr a throsodd (fel yr amlinellir yn y Map) gyda diffygion a nodwyd mewn perthynas â diogelwch adeiladau a bydd yn helpu i gyflymu'r gwaith i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â diogelwch tân a phroblemau strwythurol a nodwyd.

**Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol**
Mae £1.575m ychwanegol o gyllid refeniw a £1.2m o gyllid cyfalaf parhaus wedi'i ddyrannu i gefnogi'r ddarpariaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bydd yn helpu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant drwy ddarparu:
- hyfforddiant ar drawma mechnïol
- cyllid ychwanegol i gynyddu gwasanaethau cwnsela ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan leihau rhestrau aros
- cynyddu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff
- llety ychwanegol y telir amdano i'r rhai sy'n ffoi rhag Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- cynnydd yn narpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar gyfer Trais yn y Cartref a Chynghorydd Annibynnol ar gyfer Trais Rhywiol
- cefnogaeth ariannol i ddarpariaeth rheng flaen Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gallu ateb y galw cynyddol
- mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel y gallant gael cymorth pan fydd ei angen arnynt.

**Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - Cronfa Gynghori Sengl Newydd**: Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid grant ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.

- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i gefnogi darparu gwasanaethau cynghori. Mae ein cyllid grant yn sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn cael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatrys problemau gyda'u tai, dyledion, budd-daliadau lles, cyflogaeth neu wahaniaethu. Problemau a all gael effeithiau negyddol ar lesiant meddyliol unigolyn os na chânt eu datrys.

- Bydd y cyllid o £10m i'r Gwasanaethau Cynghori yn 2021/22 yn sicrhau bod darpariaeth gydlynol o wasanaethau cynghori sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd ar gael yn hawdd i'r rhai sydd eu hangen fwyaf yn ein cymunedau, gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

- Drwy'r Gronfa Gynghori Sengl mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i fodel cyflawni cydweithredol arloesol ar gyfer Partneriaid Cyngor a Mynediad. Ystod o sefydliadau trydydd sector yw partneriaid mynediad, gan gynnwys y rhai sydd â chysylltiadau

sefydledig mewn perthynas ag iechyd meddwl, nad ydynt yn darparu cyngor, ond sy'n helpu ac yn cefnogi pobl i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses gynghori. Maent hefyd yn cynnig cymorth cofleidiol i bobl a fydd yn meithrin eu gallu a'u hyder er mwyn atal problemau llesiant cymdeithasol yn y dyfodol.

- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Medi 2020 cafodd dros 82,000 o bobl gymorth drwy wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl, i ddelio â thros 190,000 o broblemau'n ymwneud thai, dyledion, cyflogaeth a budd-daliadau lles. Helpodd y cyngor bobl yng Nghymru i hawlio dros £20 miliwn o incwm budd-dal lles ychwanegol. Mae 83% o'r bobl a gynorthwyir yn bobl yn ein grwpiau blaenoriaeth allweddol, sy'n cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

**Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol - Cymuned a'r Trydydd Sector**
Mae gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol wedi chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i'r argyfwng hwn, o gefnogi'r rhai sy'n profi iechyd meddwl gwael, unigrwydd neu gamdriniaeth i gasglu presgripsiynau a chadw llygad ar gymdogion. Mae'r pandemig hefyd wedi dangos bod gwirfoddoli anffurfiol ar lawr gwlad yr un mor bwysig â gwirfoddoli ffurfiol.

Bydd y sector gwirfoddol yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol os ydym am weld adferiad teg a chyfiawn o bandemig y coronafeirws a thu hwnt, a dim ond gyda sector gwirfoddol cryf y gellir cyflawni hyn. Ers lansio'r Gronfa Adfer Gwasanaethau Gwirfoddol ym mis Awst 2020, hyd yma mae dros 30 o sefydliadau wedi gwneud cais am arian i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael o ganlyniad i Covid-19.

Bydd y cyllid Refeniw ychwanegol o £3.669m yn sicrhau y gall y Trydydd Sector barhau i ymateb i argyfwng Covid-19; defnyddir y cyllid ychwanegol i:

• Wella'r seilwaith ymhellach, gan sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys elusennau iechyd meddwl, ar lefel leol yn gallu cael gafael ar gyngor ac arweiniad. Galluogi cefnogi gwirfoddoli anffurfiol yn lleol mewn modd effeithlon ac effeithiol (£0.669m).
• Darparu cymorth yn uniongyrchol i sefydliadau'r trydydd sector fel rhan o Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru (£3m).

**Gellir gweld manylion mentrau a phecynnau cymorth i blant a phobl ifanc, o'r MEG Addysg, yn y papurau tystiolaeth ar gyfer y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

***- Manylion sut rydych chi'n ymgysylltu â Byrddau Iechyd i sicrhau bod y dyraniad yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl yn ddigonol i fodloni’r galw am wasanaethau, gan gynnwys asesiad o ba mor effeithiol y mae'r Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi bod wrth alluogi Byrddau Iechyd i ymateb i anghenion iechyd meddwl y boblogaeth, megis mewn gofal argyfwng ac ymyrraeth seicolegol. A yw swm y gwariant a gynlluniwyd gan Fyrddau Iechyd ar wasanaethau iechyd meddwl o fewn y GIG wedi cynyddu neu ostwng o ganlyniad i'r pandemig.***

O fis Mawrth 2020, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrddau iechyd wrth ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol yn sgil y pandemig ym maes iechyd meddwl ac felly rhyddhawyd y chwe mis cyntaf o gyllid (£3.5m) o Gronfa Wella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl (cyfanswm o £7m). Dyrannwyd

hwn i bob bwrdd iechyd i sicrhau'r parhad a'r hyblygrwydd yr oedd eu hangen ar y pryd. Gofynnwyd i fyrddau iechyd ddarparu, yn ôl-weithredol, drosolwg lefel uchel ar sut y defnyddiwyd yr arian i ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ym maes iechyd meddwl yn sgil y pandemig. Cadarnhaodd y wybodaeth a ddaeth i law fod y cyllid hwn wedi'i ddefnyddio mewn sawl ffordd gan gynnwys: darparu staff ychwanegol drwy asiantaethau a thrwy adleoli, cefnogi gofal ychwanegol oherwydd bod gwasanaethau gofal dydd wedi cau, comisiynu capasiti ychwanegol o ran gofal cleifion mewnol ac ad-drefnu modelau gwasanaeth er mwyn eu darparu'n ddigidol.

Dyrannwyd yr ail ddyraniad o £3.5m i nifer o feysydd blaenoriaeth. Roedd elfennau o gynigion wedi'u targedu at bobl ifanc wedi'u cynnwys yn y mwyafrif o gategorïau blaenoriaeth. Manylir ar y rhaniad ar draws y meysydd blaenoriaeth ar gyfer 20/21 yn y tabl isod. Mae pob bwrdd iechyd wedi cael ei ddyraniad llawn yn erbyn y £7m. Ychwanegwyd y cyllid hwn at brif ddyraniad y GIG ar gyfer 21-22.

| **Maes blaenoriaeth** | **Swm a ddyrannwyd 20/21** |
|---|---|
| CAMHS | £330,495 |
| Anhwylderau Bwyta | £501,385 |
| Amenedigol | £222,488 |
| Therapïau Seicoleg - darpariaeth pob oedran | £446,446 |
| Argyfwng / Allan o Oriau - darpariaeth pob oedran | £991,217 |
| Seicosis Ymyrraeth Gynnar | £92,166 |
| Arall (h.y. fferylliaeth, iechyd carchardai, gwasanaethau adfer) | £300,011 |
| Ymateb i Covid | £367,848 |
| Blaenoriaethau Covid / Cynllun Cyflenwi Amhenodol | £247,944 |
| **Cyfanswm** | **£3,500,000** |

Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â byrddau iechyd mewn perthynas â chyllid iechyd meddwl ac mae'r ymateb i'r gyllideb ddrafft yn seiliedig ar:

- Arolygon o'r boblogaeth ar lefel y DU, lefel Genedlaethol a lefel y GIG sy'n dangos gorbryder cynyddol ymysg ein poblogaeth.
- Gwaith modelu ar y galw a'r capasiti gan fyrddau iechyd sy'n awgrymu cynnydd yn yr anghenion ar draws yr holl wasanaethau iechyd meddwl oherwydd y pandemig.
- Tystiolaeth ehangach o'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ar iechyd meddwl, er enghraifft drwy golli swyddi, dyled a materion yn ymwneud â thai.

## 6. Asesiad effaith

***- Eich barn ar yr effaith y bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn ei chael ar wella iechyd meddwl a lles pobl ar draws pob maes o'ch portffolio, yn enwedig yng nghyd-destun y coronafeirws.***

**Iechyd Meddwl**

Credwn y bydd y gyllideb ddrafft yn cael effaith gadarnhaol gan ei bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Pan gyhoeddwyd hwn ym mis Ionawr 2020 fe wnaethom hefyd gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr ag ef i esbonio'r effeithiau hyn yn llawnach.

Fel y dywedwyd eisoes, rydym wedi ailgyhoeddi'r cynllun hwn i ystyried effaith pandemig y coronafeirws ac o'r herwydd rydym wedi diweddaru'r Asesiad Effaith. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

**7. Iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc**

***Rydym yn deall y byddwch yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gan edrych yn benodol ar y Gyllideb Ddrafft/gwariant ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles (e.e. cyllid i ysgolion wella gwasanaethau cwnsela ac ati).***

***Er na fyddwn yn dyblygu'r gwaith hwn, byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor hwn weld eich llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn nodi sut rydych chi'n bwriadu blaenoriaethu iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn y Gyllideb Ddrafft.***

Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn neilltuo cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Dull Systemau Cyfan o weithredu ar iechyd meddwl i barhau i ymateb i'r galw cynyddol am y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i symud i ddarpariaeth ataliol, integredig i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

Cynigir cymorth i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl ar lefel gymunedol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, ond mewn rhai achosion, efallai y bydd angen triniaeth cleifion mewnol er mwyn darparu ymyrraeth CAMHS arbenigol i'r plant sydd fwyaf agored i niwed. Bydd y cyllid ychwanegol (£5.4m) yn cael ei gyfeirio tuag at welliannau i wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc gyda phwyslais ar gefnogi'r rhai sydd mewn argyfwng ac sydd angen cymorth fel cleifion mewnol.

O ran y Dull Systemau Cyfan, byddwn yn ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu'r ddarpariaeth o fewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot (cynnydd o £4m). Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gweithredu ein fframwaith dull systemau cyfan, drwy gyllido arweinwyr gweithredu i weithio'n lleol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu dulliau system gyfan lleol o ymdrin â llesiant dysgwyr; ac adeiladu ar weithgaredd cynharach drwy ddatblygu rhagor o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu; cyfleoedd dysgu proffesiynol; a chefnogi llesiant staff mewn ysgolion.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021**

**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22**

---

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwario ar gyfer chwaraeon yn fy mhortffolio. Mae'r cynlluniau'n cael eu gosod yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae'r sector wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig eleni, ond yn wyneb adfyd, mae wedi cydweithio ac wedi gweithio'n gydlynus i helpu pobl i gynnal eu lefelau llesiant pan roedd yr amgylchiadau'n caniatáu hynny. Dros y deng mis diwethaf, rydym wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i lesiant meddyliol a chorfforol pobl a'r angen i gadw pobl yn ddiogel a diogelu'r GIG. Rydym hefyd wedi canolbwyntio llawer o'n sylw a'n buddsoddiad ar ddiogelu'r sector, a'i helpu i baratoi ar gyfer dychwelyd at chwaraeon ac ymarfer corff wrth i'r rheolau cenedlaethol gael eu llacio. I lawer o bobl ledled Cymru, mae chwaraeon ac ymarfer corff wedi bod yn ddihangfa o heriau eu bywyd bob dydd yn ystod y pandemig. I lawer o bobl eraill, nid ydynt wedi gallu dod o hyd i'r amser na'r cyfle i fod yn gorfforol egnïol, ac wrth inni ddod dros yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi'r sector i gefnogi pobl i gynnal neu i wella eu llesiant corfforol a meddyliol.

Er bod camau'n cael eu cymryd gyda brechlynnau a'n bod yn mentro gobeithio y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd i'r sector ymhen amser, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd a bydd angen i'n cynlluniau fod yn hyblyg a gallu esblygu mewn amgylchiadau sy'n datblygu'n gyflym. Er bod yr adferiad yn allweddol, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru fel newid hinsawdd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, gwella sgiliau a chreu swyddi.

Mae chwaraeon yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae'n dod â'n cymunedau at ei gilydd ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i bobl wella eu dysgu a dod o hyd i swydd neu yrfa. Drwy'r miloedd o weithgareddau ledled Cymru, mae chwaraeon hefyd yn cefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd fel iaith fyw a modern.

Rhaid i'r sector chwaraeon oroesi'r argyfwng hwn a rhaid inni gynllunio er mwyn i'n cymunedau, ein clybiau a'n cyfleusterau allu dychwelyd yn gadarnhaol ac edrych tua'r dyfodol gyda gobaith. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau ein bod yn gallu diogelu'r sector a'i baratoi ar gyfer unrhyw oblygiadau heriol a ddaw drwy ymadael â'r UE ond gan ei gefnogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r heriau cadarnhaol ar yr un pryd. Mae'n bwysig nad yw'r sector yn agored i niwed a'i fod wedi'i arfogi i symud ymlaen ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Rwyf yn hyderus y gall chwaraeon gefnogi'r genedl i gael ei chefn ati'n gadarnhaol ar ôl y cyfnod heriol rydym wedi bod drwyddo. Mae'n hanfodol i wella ein synnwyr o hunaniaeth, eu llesiant corfforol a meddyliol, ac i sicrhau adferiad economaidd sector sy'n ychwanegu gwerth at ein hiechyd a'n hapusrwydd ac sy'n rhoi ystyr i'n bywydau i gyd.

Bydd y cynlluniau gwario ar gyfer chwaraeon yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i fuddsoddi, drwy ei phartner cyflenwi, Chwaraeon Cymru, yn y bobl ac yn y lleoedd i ddarparu cyfleoedd cynhwysol a chyfartal i bobl arwain bywydau iach ac egnïol, ac i wireddu eu potensial mewn chwaraeon.

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, gan weithio gyda Chwaraeon Cymru, yn parhau i gefnogi ac i hyrwyddo'r cyfraniad pwysig mae chwaraeon a hamdden yn ei wneud i Gymru. Bydd ein camau gweithredu a'n buddsoddiadau'n meithrin diwylliant ac amgylchedd lle mae chwaraeon yn cyfrannu'n helaeth at greu poblogaeth iach ac egnïol ac yn un sy'n canfod ac yn meithrin doniau chwaraeon, lle bynnag y bônt yng Nghymru, i'w potensial llawn.

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach, y cydweithrediad sy'n arwain y gwaith o gyflenwi'r Gronfa Iach ac Egnïol, a Chynllun Nofio am Ddim y Lluoedd Arfog ledled Cymru.

## 2.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chyfalaf. Nid yw cyllidebau'r dyfodol wedi'u cadarnhau eto felly ni ellir darparu dyraniadau dangosol ar gyfer 2022-23. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol yn cael ei hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

## 2.1 Adnoddau

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb adnoddau rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 1** fel a ganlyn:

| **TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 £'000** | **Ail Gyllideb Atodol 2020-21 £'000** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Newid £'000** | **2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000** |
| Chwaraeon Cymru | 22,567 | 35,067 | 22,567 | (150) | 22,417 |
| Cymorth i Chwaraeon | 0 | 0 | 157 | (157) | 0 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU** | **22,567** | **35,067** | **22,724** | **(307)** | **22,417** |
| AME Darpariaeth Pensiwn Chwaraeon Cymru | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 2,000 |
| **CYFANSWM AME** | **0** | **0** | **0** | **2,000** | **2,000** |

Yn 2021-22, mae cymorth grant Chwaraeon Cymru wedi cael ei gynnal ac mae'n adlewyrchu'r ad-daliad o £150k ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed. Yn 2019-20, darparwyd £450k ar gyfer y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd i'w ad-dalu dros dair blynedd gan ddechrau yn 2020-21. Nodir y bydd yr ad-daliad cyntaf yn cael ei ddangos yn y Drydedd Gyllideb Atodol. Mae'r dyraniad hefyd yn cynnwys darpariaeth heb fod yn arian o £779k ar gyfer dibrisiant.

Yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, cafodd y gyllideb Cymorth i Chwaraeon sef £157k ei chyfuno yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol i gysoni'r cyllidebau sy'n cyflawni ar draws y portffolio, gan gynnal BELs ar wahân ar gyfer y cyrff a noddir a sefydliadau partner. Yn 2020-21, mae'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol yn £2.817m ac mae ar gael i ymateb i'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer y sector. Mae cynllun 2021-22 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau presennol fel Cynllun Nofio am Ddim y Lluoedd Arfog, sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, a'r Gemau Trefol, a oedd i fod i gael eu cynnal yn 2020 gan yr Urdd ond bu'n rhaid eu gohirio oherwydd Covid-19.

Yn Ail Gyllideb Atodol 2020-21 mae dyraniad ar gyfer **https://llyw.cymru/pecyn-cyllid-gwerth-14-miliwn-ar-gyfer-sector-chwaraeon-a-hamdden-cymru** i gefnogi'r sector gyda heriau parhaus pandemig y coronafeirws ac i helpu i ddarparu cynaliadwyedd tymor hirach. O'r swm hwn, dyrannwyd £12.5m yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru a chafodd ei gynnwys yn y £35m i ddarparu cyllid hanfodol i glybiau ac i sefydliadau chwaraeon. Mae'r £1.5m sy'n weddill yn cael ei reoli yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon. Mae'r cyllid hwn yn ategu'r Gronfa Cymorth Brys a'r Gronfa Cymru Egnïol. Mae'r sector hefyd wedi cael ei gefnogi drwy gronfeydd brys Llywodraeth Cymru ar gyfer ardrethi busnes a Chronfa Galedi Awdurdodau Lleol, a oedd yn darparu cyllid i wneud iawn am golli incwm mewn cyfleusterau hamdden.

Nid yw lefelau incwm masnachol y canolfannau chwaraeon cenedlaethol yn debygol o godi i'r lefelau cyn y pandemig. Yn y Gyllideb ddrafft, mae rhai buddsoddiadau portffolio wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Bydd penderfyniadau ariannol pellach ar gyfer y sector chwaraeon yn cael eu hasesu wrth inni ddeall rhagor am effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn 2020-21, mae darpariaeth ychwanegol ar gyfer Chwaraeon Cymru i leddfu effeithiau Covid.

Yn 2021-22 bydd Chwaraeon Cymru, fel corff a noddir, yn cael ei alinio'n llawn â chyfrifon Llywodraeth Cymru ar sail adnoddau. Bydd y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol sef £2m yn darparu ar gyfer unrhyw amrywiadau yn y ddarpariaeth pensiwn.

### 2.2 Cyfalaf

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb cyfalaf rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 2** fel a ganlyn:

**TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Cyfalaf**

| Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 £'000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 £'000 | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Newid £'000 | 2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon Cymru | 3,345 | 3,345 | 3,345 | 3,284 | 6,629 |
| Ad-dalu Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | (254) | (254) | (227) | - | (227) |
| **CYFANSWM** | **3,091** | **3,091** | **3,118** | **3,284** | **6,402** |

Mae cyllideb cyfalaf 2021-22 Chwaraeon Cymru, sef £6.629m, yn cynnwys £5m ar gyfer y Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol, lle bydd dyraniad ychwanegol o

£2m yn galluogi rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Mae hyn hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol a helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, gan ddarparu cyfle unigryw i hyrwyddo brand Cymru ar lwyfan rhyngwladol yn y dyfodol.

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati'n frwd i weithredu polisïau a chynlluniau i leihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae £1.3m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2021-22 yn darparu buddsoddiad i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol i'r busnes, yn enwedig y system wresogi ac offer y pwll yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru ym Mhlas Menai. Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon, bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ynni hirdymor ac yn lleihau'r ôl troed carbon yn sylweddol. Mae'r ganolfan yn darparu gweithgareddau awyr agored preswyl i ysgolion yng ngogledd Cymru a thros y ffin yn Lloegr, ac mae'n cyfrannu'n economaidd at yr ardal leol drwy ddarparu swyddi amser llawn a swyddi tymhorol.

Mae'r newid yn y gyllideb o £3.284m yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o £3.3m sydd wedi'u gwrthbwyso gan ad-daliad o £0.016m ar gyfer y cwch hwylio ym Mhlas Menai, a brynwyd gyda chymorth cyllid Buddsoddi i Arbed.

Mae cyllideb 2021-22 hefyd yn gyfrifol am ostyngiad o £27k yn y flwyddyn ar gyfer ad-dalu'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon. Mae'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon yn cael ei gyllido gyda chyfalaf trafodion ariannol sy'n ad-daladwy i'r Trysorlys. Mae cyfanswm y benthyciadau sef £1,828,362 mewn perthynas â thri benthyciad a wnaed i awdurdodau lleol o dan y cynllun i'w ad-dalu'n llawn dros gyfnod o saith mlynedd (roedd yr ad-daliadau wedi dechrau yn 2018-19). Mae £910,236 yn dal heb ei dalu.

## 3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

### Pa effaith mae Covid-19 wedi'i chael ar ddarparu a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r blaenoriaethau a'r dyraniadau i fynd i'r afael ag unrhyw effaith.

Roedd anghydraddoldebau o ran gweithgarwch chwaraeon yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol wedi cael eu dangos yn glir gan astudiaeth ComRes a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ym mis Mai. Yn ystod y cyfyngiadau symud caeth, roedd pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llawer mwy tebygol o fod wedi dweud bod eu lefelau gweithgarwch corfforol wedi disgyn. Yn fwyaf pryderus, roedd y bobl a ddywedodd nad oedd eu plant yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol nac ymarfer corff ar ddiwrnod arferol yn 9% ond roedd hyn yn codi i 14% ar gyfer plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Felly, mae hi'n bwysicach nag erioed sicrhau bod plant yn derbyn lefel uchel o chwaraeon a

gweithgareddau o ansawdd uchel, yn enwedig mewn ysgolion, gan fod achosion yn y dyfodol yn llai tebygol o effeithio ar boblogaeth iachach sy’n egnïol.

Mae cyfle i ddychmygu o’r newydd yr hyn a allai fod yn genedl chwaraeon yn y dyfodol. Mae natur rymus chwaraeon, a Chwaraeon Cymru fel prif sefydliad, mewn sefyllfa unigryw i gefnogi’r dull newydd hwn o weithredu. Gyda’r gallu i ymgysylltu â phob cymuned yng Nghymru, ar draws pob portffolio, gall chwaraeon ddod i’r amlwg fel sbardun ar gyfer gwlad sy’n fwy cadarn, iach a ffyniannus. Yn fwy na hynny, gall chwaraeon wneud hyn ar yr un pryd â chanolbwyntio’n ddi-baid ar fynd i’r afael ag anghydraddoldebau fel arf polisi sy’n hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Bydd buddsoddi mewn chwaraeon heddiw yn gyfrwng i fynd i'r afael â’r misoedd coll hyn, ond bydd hefyd yn adeiladu Cymru sy’n fwy cryf a chadarn yn y dyfodol.

## Y cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru, a’r cynnydd a wnaed o ran monitro pa mor effeithiol mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio cyllid.

Mae cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru yn 2021-22 yn cael ei ddangos yn Nhablau 1 a 2 uchod.
Rydym yn darparu £22.417m o gyllid refeniw ar gyfer chwaraeon, sy’n dangos ein hymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a phwysigrwydd atal afiechyd. Mae chwaraeon ac ymarfer corff yn rhan o’r ateb wrth ymateb i fygythiadau uniongyrchol a thymor hirach Covid i’n cymunedau.

Rydym hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i helpu i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon mewn cymunedau ledled Cymru yn fodern ac yn hygyrch drwy ddarparu £6.629m o gyllideb cyfalaf i Chwaraeon Cymru.  Mae’r gyllideb cyfalaf yn cynnwys £1.645m ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn nwy ganolfan genedlaethol Chwaraeon Cymru ac i gefnogi ei ymgyrch i wella ei effeithlonrwydd ynni a lleihau ei ôl troed carbon.  Mae’r gronfa ‘Lle i Chwaraeon’ yn helpu clybiau a mudiadau chwaraeon yng Nghymru i wella ac i uwchraddio eu cyfleusterau. Mae’r £5m sydd ar gael yn 2021-22 yn ategu’r £8m rydym eisoes wedi’i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o’r penderfyniadau ynghylch y gyllideb ac mae effaith lleihau allyriadau carbon ac effeithlonrwydd ynni yn ystyriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi.

Bydd y gwaith i fonitro pa mor effeithiol mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio ei gyllid yn cael ei wneud ar amrywiaeth o lefelau. Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Chwaraeon Cymru ynghylch y blaenoriaethau strategol a nodir yn ei gynllun busnes ac yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol i drafod y cynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau y cytunwyd arnynt. Maen nhw hefyd yn bresennol

yng nghyfarfodydd Bwrdd Chwaraeon Cymru. Rwyf yn cwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau polisi a chynnydd o ran cyflawni'r llythyr cylch gwaith a'r cynllun busnes.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros y tair blynedd nesaf, a dyraniadau/gwariant wedi'i ragamcanu ar gyfer cyflawni'r rhain.**

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu cyflwyno yn llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru ac yn cael eu cyfleu ar ffurf camau gweithredu a chanlyniadau yng nghynllun busnes Chwaraeon Cymru. Ar gyfer 2021-22, byddant yn parhau i arwain y sector a chydweithio ag eraill i annog ac i hwyluso rhagor o'r boblogaeth i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac i fuddsoddi ymdrech ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf, lle mae amrywiadau sylweddol mewn cyfranogiad a lle mae diffyg cyfle neu ddyhead i fod yn egnïol. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i gefnogi datblygiad chwaraeon cymunedol ledled Cymru ac yn helpu chwaraeon i feithrin, i ddatblygu ac i gefnogi doniau chwaraeon i sicrhau llwyddiant sy'n ysbrydoli pobl ac yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl chwaraeon. Mae'n debygol y bydd Chwaraeon yn parhau i amsugno effaith y coronafeirws yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Bydd rhoi sefydlogrwydd, sicrwydd a hyder i'r sector yn flaenoriaeth allweddol i Chwaraeon Cymru a thrwy ei strategaeth a'i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n buddsoddi oddeutu £16m y flwyddyn mewn chwaraeon cymunedol; drwy bartneriaid, cynlluniau grant a mentrau i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn egnïol drwy chwaraeon. Bydd y buddsoddiad refeniw yn 2021-22 yn cael ei ategu gan £5m o fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau a fydd yn ysbrydoli ac yn galluogi hynny i ddigwydd.

**Pa dystiolaeth sydd wedi llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.**

Mae'r dystiolaeth wedi dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion, a'r ymchwil roedd Chwaraeon Cymru wedi'i gomisiynu gan Savanta Com Res ynghylch effaith y coronafeirws ar lefelau gweithgarwch corfforol. Mae'r blaenoriaethau a'r gyllideb arfaethedig hefyd yn seiliedig ar werthusiadau o gynlluniau sydd eisoes ar waith, fel Nofio am Ddim a'r ymrwymiadau yn strategaeth Llywodraeth Cymru i atal ac i leihau cyfraddau gordewdra ar draws Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach.

Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. O Arolwg Cenedlaethol Cymru, rydym yn gwybod yn 2019-20, yn union cyn y Coronafeirws, bod 32% o oedolion (16 oed a hŷn) wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy

(808,000 o bobl). Roedd 7% yn cymryd rhan tua dwywaith yr wythnos (186,000 o bobl), roedd 11% yn cymryd rhan tua unwaith yr wythnos (268,000 o bobl) ac roedd 50% yn cymryd rhan lai nag unwaith yr wythnos (1,245,000 o bobl). Ar ben hynny, nid oedd 41% o oedolion wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch chwaraeon (1,040,000 o bobl) yn ystod y 4 wythnos flaenorol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dweud y byddai 49% o'r holl oedolion yn hoffi gwneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol (1,236,000 o bobl). Y mesur cyfatebol oedd 50% yn 2018-19, 55% yn 2017-18, a 58% yn 2016-17. Mae hyn yn dangos y bu gostyngiad tymor byr yn y galw i wneud mwy o chwaraeon.

Mae Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018 o yn dweud wrthym fod 48% o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers 2015. Mae canrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgwricwlaidd neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos – 47% o ddisgyblion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11. Mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau o hyd o ran lefelau cyfranogiad, gyda 50% o fechgyn a 46% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgwricwlaidd neu gymunedol o leiaf dair gwaith yr wythnos. Mae lefelau cyfranogiad hefyd yn amrywio yn ôl oedran, ethnigrwydd, anabledd a lefel amddifadedd cymharol y disgyblion.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ar effaith y coronafeirws ar gyfranogiad mewn chwaraeon wedi dangos, yn gyffredinol, ei bod yn ymddangos bod lefelau gweithgarwch corfforol oedolion yn debyg i'r rheini cyn i'r cyfyngiadau COVID-19 cyntaf gael eu cyflwyno ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau o ran cyfranogiad ar draws rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, salwch neu gyflwr hirsefydlog, ac oedran. Er bod tystiolaeth i awgrymu y bu pegynu o ran gweithgarwch yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol (gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n gwneud 'dim gweithgarwch corfforol' a'r rheini sy'n gwneud gweithgarwch corfforol 'bob dydd'), mae'r arolwg presennol yn awgrymu bod y duedd hon yn cael ei gwrthdroi gyda rhagor o oedolion yn gwneud 'rhywfaint' o weithgarwch erbyn hyn. Mae'r adborth yn awgrymu bod plant yng Nghymru bellach yn gwneud mwy o chwaraeon/gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol na chyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Yr eithriad i hyn yw oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn/plant bellach yn gwneud llai o weithgarwch ar ddiwrnod arferol yn ystod y penwythnos.

Mae ymchwil ComRes hefyd yn adrodd bod dwy ran o dair o oedolion Cymru yn cytuno ei bod yn bwysig ymarfer corff yn rheolaidd. Bu cynnydd bach yng nghyfran yr oedolion sy'n ymarfer corff i helpu i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol dros y pum mis diwethaf, ond mae llai o bobl yn dweud eu bod wedi gweld colli'r mathau o weithgarwch roeddent yn gallu eu gwneud cyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu

cyflwyno am y tro cyntaf (o 56% yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol i 49% ar hyn o bryd).

**Tystiolaeth o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.**

Mae ein gwaith ni a gwaith Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant ond yn bennaf y rheini sy'n ymwneud â chreu Cymru Iachach, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.  Mae manteision ffyrdd iach ac egnïol o fyw i'n hiechyd meddyliol a chorfforol yn amlwg.  Drwy gynyddu ein lefelau gweithgarwch a mabwysiadu arferion da eraill, gallwn i gyd leihau ein risg o ganser a chlefyd cardiofasgwlaidd yn ogystal â gwella ein llesiant meddyliol a lleihau'r risg o ddatblygu dementia. Profwyd bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn helpu i atal ac i drin clefydau anhrosglwyddadwy megis clefyd y galon, strôc, diabetes a chanser y fron a chanser y colon. Mae hefyd yn helpu i atal pwysedd gwaed uchel, gorbwysau a gordewdra a gall wella iechyd meddwl, ansawdd bywyd a llesiant.

Gellir a dylid integreiddio gweithgarwch corfforol i'r lleoliadau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae. Mae chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn gallu helpu i hyrwyddo gweithgarwch corfforol i bobl o bob oed a gallu. Mae chwarae a hamdden actif yn bwysig yn gynnar mewn plentyndod yn ogystal ag ar gyfer twf a datblygiad iach plant a phobl ifanc. Mae addysg gorfforol o safon ac amgylcheddau cefnogol mewn ysgolion yn gallu darparu llythrennedd corfforol ac iechyd ar gyfer ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Mae hi hefyd yn bwysig bod oedolion yn gallu bod yn gorfforol egnïol ac yn llai eisteddog yn y gwaith. Boed nhw'n gweithio ai peidio, mae oedolion hŷn yn gallu elwa o weithgarwch corfforol rheolaidd i gynnal iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol a galluogi heneiddio'n iach.

Mae hi'n anodd mabwysiadu a chynnal ymddygiad iach ac mae ein hamgylchedd, ein rhwydweithiau cymdeithasol, arferion cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau masnachol ehangach yn dylanwadu'n gryf ar hyn. Fwyfwy, rydym yn cydnabod gwerth galluogi cymunedau i adeiladu'n gadarnhaol ar asedau presennol i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau yn hytrach na rhagnodi camau gweithredu o'r tu allan. Mae creu cysylltiadau mewn a rhwng cymunedau i arwain at newid yn aml yn gallu cael ei hwyluso gyda lefelau cymharol isel o gyllid, arbenigedd neu'r parodrwydd i rannu asedau ac adnoddau ffisegol a dynol. Ar draws pob lleoliad, mae cyfleoedd i arloesi digidol hyrwyddo a chefnogi pobl o bob oed i fod yn fwy egnïol a defnyddio data i helpu i hyrwyddo, i gefnogi ac i fonitro gweithgarwch corfforol.

Rhaid inni barhau i ganfod ffyrdd o greu'r amodau sy'n cefnogi cymunedau ac unigolion i newid eu ffordd o fyw a chynnal y gwelliannau hynny. Mae chwaraeon yn gallu chwarae rhan bwysig yn y gwaith o greu Cymru iachach, a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, drwy ei rwydwaith o bartneriaid a rhanddeiliaid, ei glybiau chwaraeon cymunedol a'i wirfoddolwyr, gan gynnwys y Llysgenhadon Ifanc sy'n

cynrychioli buddiannau a dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc nawr ac yn y dyfodol. Bydd cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei fuddsoddi yn ein cymunedau, drwy gydweithio â sectorau eraill, ac integreiddio amcanion a chyllidebau, a fydd yn sicrhau enillion cymdeithasol ac economaidd a fydd yn helpu i greu diwylliant a chyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach ac egnïol o fyw a llwyfan cadarnhaol i bobl ifanc fod yn gadarnhaol ac yn hyderus am y dyfodol.

Bydd y buddsoddiad cyfalaf yn y Canolfannau Cenedlaethol a'r Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol yn datblygu cyfleusterau chwaraeon ymhellach ledled Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r weledigaeth o genedl egnïol ac yn cefnogi anghenion ein cymunedau lleol, gan greu sector chwaraeon sy'n fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canlyniadau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei strategaeth a'i gynllun busnes.
Wrth ddatblygu'r strategaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, bu Chwaraeon Cymru'n ymwneud ag ystod eang o randdeiliaid traddodiadol a heb fod yn draddodiadol ac yn cydweithio â nhw.  Mae Chwaraeon Cymru yn dal i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru a thrwy'r Gronfa Iach ac Egnïol. Mae cydweithio ar draws cymunedau'n cael ei hybu a'i gefnogi i sicrhau manteision cynaliadwy hirdymor. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio. Roedd y gwerthusiad annibynnol o'r broses ac adroddiad gan Archwilio Cymru wedi darparu tystiolaeth o hyn.

**Tystiolaeth o sut mae blaenoriaethau a dyraniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cyfrannu at amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad.**

Mae strategaeth Chwaraeon Cymru yn canolbwyntio ar yr unigolyn o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.  Mae'r dull cyllido wedi cael ei ailwampio'n llwyr er mwyn mynd ati'n benodol i sbarduno camau gweithredu yn y sector er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagweithiol.  Mae gwrando ar brofiadau byw lleiafrifoedd sy'n cael eu tangynrychioli yn nodwedd allweddol o waith Chwaraeon Cymru yn y dyfodol. Cafodd Chwaraeon Cymru dros 1200 o geisiadau gan glybiau am gyllid yn ystod y pandemig ac roedd 70% ohonynt wedi datgan sut bydd eu cais yn hyrwyddo cydraddoldeb.  Mae'r ganran honno'n codi i 79% yn y ceisiadau a gafwyd ar gyfer ffrwd 'Cynnydd' y Gronfa Cymru Actif.

Un o'r prif newidiadau mae Chwaraeon Cymru wedi'i roi ar waith yn ddiweddar yw strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig, sydd nawr yn canolbwyntio ar dri maes allweddol - buddsoddi ar sail gallu, atebolrwydd a data.  Mae'r dull hwn wedi newid y ffordd

mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi arian cyhoeddus ac arian loteri yn ei rwydwaith partneriaid, ar gyfer cyrff llywodraethu cenedlaethol campau a phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol eraill.  Mae’r dull diwygiedig o fuddsoddi ar sail meini prawf yn mynd ati’n benodol i dargedu cyrhaeddiad ac effaith partneriaid ar amcanion cydraddoldeb gwahanol. Er y caiff pob camp ei chyllido ar sail y cyfraddau cyfranogiad a’r galw am y gamp, bydd cydnabyddiaeth benodol o allu partner i ddylanwadu ar ddemograffeg wahanol. Bydd campau sy’n gallu dangos cyrhaeddiad ac effaith ar draws y rhywiau, hil ac anabledd yn derbyn mwy o fuddsoddiad fel ffordd o sbarduno camau i gefnogi grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli. Mae amddifadedd hefyd yn faen prawf allweddol ar gyfer sut caiff cyllid ei ddyrannu ar draws partneriaid daearyddol, er mwyn darparu arian mewn ffordd gymesur i’r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.

Drwy gydol y pandemig, mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyfeirio at brosiectau sy’n ceisio sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn egnïol drwy chwaraeon. Drwy gynlluniau’r Gronfa Cymru Egnïol a’r Gronfa Cadernid Chwaraeon a Hamdden, mae Chwaraeon Cymru wedi blaenoriaethu ceisiadau am fuddsoddiad i sicrhau bod chwaraeon ar gael i bawb.

**Sut bydd y gyllideb yn cefnogi:**

- **cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru;**
- **yr agenda ataliol ehangach; a**
- **chydweithio rhwng chwaraeon, iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill.**

Mae ailgyfeirio cyllid yn 2020-21 wedi helpu’r sector chwaraeon i oroesi drwy’r pandemig a’i baratoi i hwyluso cyfleoedd chwaraeon ac effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol y genedl.  Bydd blaenoriaethu pobl ifanc yn sicrhau’r enillion mwyaf ar fuddsoddiad ac mae’r cydweithio â’r sector addysg yn hanfodol a bydd y lefel uchaf o gyllid gan fuddsoddiad Chwaraeon Cymru mewn partneriaid cenedlaethol yn cael ei neilltuo ar gyfer chwaraeon sy’n gallu dangos yr effaith fwyaf ar lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â’r newid hwn mewn buddsoddiad partneriaid, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn buddsoddi mewn nifer o sefydliadau sy’n cefnogi cyfranogiad pobl ifanc yn unig mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae’r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda’r Urdd, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru a GemauStryd, y mae eu rhwydweithiau’n cefnogi dulliau gwahanol a phwrpasol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda’r sector addysg i ddwyn effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar lesiant corfforol a meddyliol pobl ifanc. Bydd rhaglen Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru, a gyflwynir mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Chwaraeon yr Ifanc, yn dal yn ganolbwynt i fuddsoddiad y sefydliad

mewn arweinyddiaeth chwaraeon yn amgylchedd yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae bron i 6,000 o Lysgenhadon Ifanc mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru ac mae 19,000 o Lysgenhadon Ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen dros gyfnod o 10 mlynedd. Mewn arolwg o Lysgenhadon Ifanc Cymru, dywedodd 96% ohonynt fod y rhaglen wedi rhoi mwy o hyder iddynt, ac roedd 98% yn teimlo ei bod wedi gwella eu sgiliau arwain.

Bydd Chwaraeon Cymru yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Llysgenhadon Ifanc i greu gweithlu ar gyfer y dyfodol drwy ymgysylltu cymdeithasol a gwirfoddoli. Mae'r rhaglen yn cefnogi'r sector ac yn gwella profiad pobl ifanc o addysg ac mae'n effeithio'n gadarnhaol ar eu cyflogadwyedd. Mae data diweddar yn dangos y bydd 30% o oedolion a 44% o bobl ifanc 16-34 oed yn ceisio gwirfoddoli mewn chwaraeon yn ystod y 12 mis nesaf, mae hwn yn weithlu sy'n barod am dwf.

Bydd buddsoddiad yn y dyfodol hefyd yn parhau i gefnogi adnoddau llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion a chymunedau. Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu adnoddau i gefnogi athrawon a staff ysgolion yn y cyfnod cynradd ac ar gyfer chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion cynradd. Bydd buddsoddiad yn 2020-21 yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gasglu data am gyfranogiad mewn chwaraeon drwy'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Mae'r data'n allweddol i ddeall profiad plant o addysg gorfforol a chwaraeon ac yn helpu i siapio'r cynnig sydd ar gael iddynt yn yr ysgol ac yn y gymuned leol.

Mae'n bosibl i chwaraeon fod yn un o'r arfau ataliol gorau yng nghyswllt iechyd yn y wlad, ond mae angen mwy o flaenoriaethu ar draws sectorau i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a Chynllun Cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft lwyddiannus yn y maes hwn.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau i gyflawni cynllun cyflenwi *'Pwysau Iach: Cymru Iach'*. Mae nifer o feysydd ffocws yn y gwaith hwn, gan gynnwys parhau i fuddsoddi i gefnogi'r fenter Nofio am Ddim a chynllun Hamdden Egnïol dros 60 oed newydd a fydd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2021.

Yn 2020-21, bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn parhau i gefnogi a buddsoddi yn y Gronfa Iach ac Egnïol. Bydd y gronfa ar ei thrydedd flwyddyn yn 2021-22 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo ac yn galluogi gweithgarwch iach i grwpiau o boblogaeth sydd â lefelau isel o weithgarwch corfforol yn eu bywydau os o gwbl. Yn yr un modd â nifer o raglenni a phrosiectau tebyg eraill, mae effaith y coronafeirws wedi golygu y bu'n rhaid i'r prosiectau atal neu gwtogi eu gweithgareddau yn 2020-21. Gobeithio byddant yn ailgydio'n llawn ynddynt pan fydd y coronafeirws yn llacio ei afael a bydd y rheolau cenedlaethol yn cael eu llacio.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio ar draws sectorau gwahanol i ehangu effaith chwaraeon ar iechyd, ar gymdeithas ac ar yr economi ond mae effaith y

coronafeirws wedi amharu ar y momentwm a fu dros y blynyddoedd diwethaf. Y darn mwyaf arwyddocaol o waith fu'r berthynas sy'n datblygu rhwng Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru. Bydd y bartneriaeth yn cael ei hadfywio yn 2021-22 i barhau â'i gwaith cydweithredol ar raglenni, mentrau, ymchwil ac asesiadau effaith i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ategu gan Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS), consortiwm o wyth prifysgol yng Nghymru a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru i ddarparu adnodd ymchwil cydweithredol newydd i gefnogi ymyriadau gweithgarwch corfforol a gwerthusiadau cynnydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn 2020-21, bydd buddsoddiad strategol mwyaf Chwaraeon Cymru yn y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol, a fydd yn trawsnewid y ffordd caiff cyfleoedd chwaraeon a hamdden lleol eu rheoli a'u darparu. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn sefydlu pum partneriaeth chwaraeon ranbarthol ledled Cymru erbyn 2022-23 a fydd yn cynrychioli buddiannau ystod eang o sefydliadau fel:

- Awdurdodau Lleol
- Prifysgolion a/neu Sefydliadau Addysg Bellach
- Byrddau Iechyd
- Cymdeithasau Tai
- Gweithredwyr Cyfleuster Hamdden
- Clybiau chwaraeon a sefydliadau chwaraeon eraill
- Partneriaid trydydd sector
- Cymdeithasau Cymunedol

Bydd y buddsoddiad yn y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn sbarduno cydweithrediad ar draws ardaloedd daearyddol er mwyn darparu adnoddau a newid ar raddfa fawr. Chwaraeon Gogledd Cymru fydd y bartneriaeth gyntaf i ddechrau arni yn 2020-21, wedi'i dilyn gan y pedair arall cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn datganoli'r cyfrifoldeb dros fuddsoddiad mewn chwaraeon ar sail amgylchiadau lleol ac anghenion cymunedau.

### Cyllideb Ddrafft 2020-21 - Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o gyfraddau cyfranogiad yn y fenter nofio am ddim ddiwygiedig cyn pen 12 mis ar ôl ei chyflwyno.**

**Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o’r canlynol:**

- **pa weithgareddau ychwanegol sydd wedi cael eu darparu gyda'r £1.5 miliwn a ddyrannwyd yn flaenorol i'r fenter nofio am ddim;**
- **beth oedd y cyfraddau cyfranogiad. Dylid gwneud hyn cyn pen 12 mis.**

Mae hi’n bwysig atgoffa’r Pwyllgor bod y newid yn yr agwedd o ran y fenter Nofio am Ddim wedi cael ei ddylunio i beidio â chynyddu cyfranogiad ar draws y grwpiau oed a oedd wedi’u targedu ond cyflawni effaith gymdeithasol sef cefnogi pobl ifanc ac yn enwedig y rheini sy’n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Yn yr un modd â nifer o fentrau tebyg, mae'r fenter Nofio am Ddim wedi cael ei herio gan y coronafeirws a’r cyfyngiadau angenrheidiol. Mae canolfannau hamdden a phyllau nofio wedi bod ar gau am ran fawr o 2020 neu roedd yn rhaid iddynt weithredu gyda llai o gapasiti er mwyn dilyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol/corfforol. O ganlyniad, nid yw awdurdodau lleol wedi gallu cyflwyno’r fenter yn unol â’r bwriad.

O ganlyniad i effaith y pandemig ar y fenter, mae'r teclyn casglu data am gyfranogiad wedi cael ei ailwerthuso a bydd yn cael ei roi i’r holl bartneriaid awdurdodau lleol erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Byddant yn defnyddio’r teclyn i gasglu data meintiol ac astudiaethau achos wedi’u hôl-ddyddio i fis Hydref 2019. Bydd y data a’r gwerthusiad annibynnol o’r dull gweithredu newydd yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2021 pan fydd effaith lawn a gwirioneddol y cynllun diwygiedig yn hysbys.

Y bwriad oedd buddsoddi’r cyllid a ryddhawyd gan y newidiadau i’r fenter Nofio am Ddim i gefnogi’r camau gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys y Gronfa Iach ac Egnïol gwerth £5.4m. Fodd bynnag, cafodd holl gyllideb Chwaraeon Cymru ar gyfer 2020-21 ei hailgyfeirio i helpu’r sector i oroesi effaith y coronafeirws. Bydd yr arian hwnnw a’r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14m a gyhoeddais ym mis Medi yn sicrhau ein bod yn diogelu’r cyrff a’r sefydliadau sy’n darparu mentrau fel Nofio am Ddim a llawer o gynlluniau a gweithgareddau eraill.